# Crynodeb ac Ymateb i'r Ymgysylltiad ar Gynllun Adnoddau Coedwig Niwbwrch

Derbyniodd CNC gyfanswm o 43 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022.

16 gan gyrff anllywodraethol a 27 gan y cyhoedd:

29 ymateb ar Citizen Space


11 ymateb drwy e-bost

3 ymateb drwy lythyr

Gyda'i gilydd, gadawodd tua 30-35 o ymwelwyr eu manylion yn y 2 ddigwyddiad galw heibio a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022.

**<u>Dadansoddiad Cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad:</u>**

Roedd mwyafrif yr ymatebion, 25 o 43 (58%) naill ai'n niwtral neu'n cefnogi'r cynllun:




Roedd 18 o 43 (42%) o'r ymatebion ddim yn cefnogi'r cynllun:

Roedd 6 (14%) o ymatebion eisiau llai o goed i gael eu tynnu, neu ddim o gwbl (5 o'r cyhoedd/1 corff anllywodraethol)

Roedd 10 (23%) o ymatebion eisiau mwy o goed i gael eu tynnu, neu bob un (5 o'r cyhoedd/5 corff anllywodraethol)

Roedd 2 (5%) o'r ymatebion yn anhapus gyda'r dinistr i gynefinoedd yn sgil gweithrediadau diweddar (2 o'r cyhoedd)

Yn gyffredinol, roedd cyfran uwch o gyrff anllywodraethol (10 allan o 16) yn gefnogol/niwtral yn hytrach nag yn anghefnogol ynghylch y cynlluniau, ac roedd cyfran uwch o'r cyhoedd yn anghefnogol/niwtral (22 allan o 27) yn hytrach na chefnogol ynghylch y cynlluniau.

Cyfeiriodd nifer sylweddol o ymatebion, yn bennaf gan y cyhoedd, at faterion yn ymwneud â hamdden a thraffig. (Gweler yr holl ymatebion yn yr adrannau isod).

Yn gyffredinol, roedd y bobl a ymatebodd ac a oedd yn fwy cefnogol i'r cynlluniau yn ysgrifennu llai na'r bobl a oedd yn llai cefnogol am fod yr ail garfan yn dueddol o dynnu sylw at fwy o faterion/problemau gyda'r cynlluniau. Felly, mae'r adran ar sylwadau anghefnogol yn llawer hirach na sylwadau cefnogol. (Gweler yr holl ymatebion yn yr adrannau isod).

Yn y sesiynau galw heibio, gadawodd y rhan fwyaf o bobl sylwadau cadarnhaol o dan faneri:  Dwi'n hoffi... Hoffwn i... Tybed...

**<u>Canlyniadau'r ymgynghoriad</u>**

Ar y cyfan, roedd CNC yn hapus ac mae'n croesawu bod mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n niwtral neu o blaid y cynigion. Mae'n teimlo bod y cynigion drafft gwreiddiol wedi mynd yn bell o ran sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng Cynefinoedd y Twyni, y Goedwig a Phobl.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymgynghoriad helaeth gyda Rhanddeiliaid allanol / y Cyhoedd a chynghorwyr arbenigol mewnol CNC, gan gynnwys y 'Tîm Asesu Statudol', mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r cynlluniau ers mis Tachwedd 2022.

Gwnaed y newidiadau canlynol yn sgil yr Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd:

- Ymrwymiad i'r amseriadau ar gyfer cwympo coed ar y blaendwyni, gan ganiatáu ar gyfer gwaith rheoli ymaddasol mewn Cynlluniau Adnoddau Coedwig yn y dyfodol.
- Mwy o goed llydanddail (Coetir y Twyni) o amgylch dalgylchoedd Tafolen y Traeth yng Ngherrig Duon a Ffrydiau.
- Mwy o fannau agored ar hyd coridorau Tafolen y Traeth (gan gynnwys man agored wedi'i greu drwy waith 'Twyni Byw'), ond yn cynnwys pwyntiau cysylltedd yng nghanopi'r goedwig ar gyfer y wiwer goch.
- Newidiadau i fapiau gweithrediadau coedwig a theneuo.
- Nifer o amodau sy'n caniatáu ar gyfer gwaith rheoli ymaddasol mewn Cynlluniau Adnoddau Coedwig yn y dyfodol.
- Dogfennu'r manylion ar gyfer cyflwyno'r Cynllun mewn 'Cynllun Rheoli Cadwraeth'.

Yn ogystal, mae newidiadau eraill, sydd heb fod yn sgil yr Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd, wedi'u gwneud oherwydd yr ymgynghoriad helaeth:

- Mannau agored ychwanegol i gyd-fynd â gwaith blaenorol 'Twyni Byw'.
- Newidiadau yn y cynllun cwympo coed yn sgil y cytundeb newydd ar gyfer Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr
- Cadw 2 lain mewn ardaloedd pinwydd craidd ar gyfer ymchwil coedwig
- Lleihau llwyrgwympo ar y ffin ar gyfer preswylwyr cyfagos
- Ardal glustogi o goed llydanddail ar gyfer poblogaethau gwenyn ar hyd ymyl Llac Parnassus

- Nifer o fân newidiadau wedi'u gwneud i'r amcanion er eglurder a chyfanrwydd.

Isod mae rhestrau o sylwadau o'r ymgynghoriad, wedi'u dosbarthu yn ôl pwnc, gydag ymatebion CNC wedi'u hychwanegu mewn COCH lle bo hynny'n briodol.

## Sylwadau cadarnhaol sy'n cefnogi'r cynllun a'i amcanion:

Rwy'n hoffi'r cysyniad o warchod y coetir presennol gyda choetir cymysg mwy cadarn, gwydn ger yr arfordir gan fod yr ardal hon wedi'i difrodi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rwyf bob amser wedi hoffi'r gwaith a wneir gan CNC ac yn meddwl bod yr ethos a'r ymrwymiad y tu ôl i'r gwaith i'w canmol.

Rwy'n hoffi'r ffaith bod y cynllun yn brosiect hirdymor.

Rwy'n hoffi ffaith ei fod yn gydnaws â newid ac yn wir mae'n debyg y bydd yn newid gan y bydd ffactorau allanol eraill yn ei arwain.

Rwy'n meddwl bod y cynllun hwn yn gydnaws â'r fioamrywiaeth leol a bydd yn wir yn addasu i newidiadau a achosir gan y tywydd a'r newid yn yr hinsawdd. Rwy'n hoffi'r ffaith ei fod hefyd yn gweithio gydag anghenion y cyhoedd sydd hefyd yn defnyddio'r ardal fel safle hamdden. Rwy'n meddwl bod y cynllun yn gynhwysfawr ac y bydd yn addasu i'r heriau a ddaw yn sgil amser.

Fel yna mae'n ymddangos bod ymdrech dda i bwysleisio amrywiaeth o wahanol gynefinoedd.

Cynyddu faint o brennau marw sydd o gwmpas – cam cadarnhaol ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth. Mae'n amlwg y bu diffyg prennau marw yn yr ardal oherwydd ar fy ymweliad diwethaf yno nid oedd fawr ddim ffwng ysgwydd na ffyngau saprotroffig eraill i'w gweld, na pholypor bedw. Roedd y rhan fwyaf o'r ffyngau a welwyd yn mycorhisaidd ac yn gysylltiedig â'r coed conwydd. Fel a nodwyd gennych, byddwch yn annog mwy o goetir brodorol i ffynnu, a'r gobaith yw y bydd hyn yn esgor ar gyfran fwy cytbwys o rywogaethau ffwngaidd. Bydd mwy o brennau marw brodorol hefyd yn golygu y bydd nifer ac amrywiaeth yr infertebratau sy'n bwydo arnynt yn cynyddu ac yna'n cyfrannu at yr ecosystem gyfan.

Mae rheoli dŵr croyw yn swnio'n dda.

Parhau i warchod henebion a nodweddion hanesyddol – da.

Cydnabyddiaeth y dylid annog cynefinoedd ACAau.

Ymddengys ei fod yn gynllun strategol da sy'n ystyried yr holl randdeiliaid.

Rwy'n croesawu'r cynnig i reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Fodd bynnag, o ystyried y cyfeiriadau annelwig at ailblannu â rhywogaethau o goed egsotig, mae'n bell o fod yn amlwg nad oes mwy o broblemau'n cael eu creu.

Yn gyffredinol mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer Coedwig Niwbwrch. Mae hyn yn cynnwys adfer cynefin twyni, cynnal a chadw nodweddion ACAau / SoDdGAau; darparu ar gyfer y rhywogaethau pwysig y mae'r safle'n eu cynnal, gan gynnwys y wiwer goch; cynyddu rheolaeth ar brennau marw a rhywogaethau estron goresgynnol. Rydym yn gefnogol i'r cynlluniau i amrywio cyfansoddiad a strwythur y coetir a'r cynnydd graddol mewn coetir

llydanddail, yn ogystal â’r bwriad i gynyddu arwynebedd y cynefin coetir a gadael i brosesau naturiol gymryd drosodd.

Rwy’n hoffi’r coridorau bywyd gwyllt / ardal o fawn dwfn wedi’i goedwigo yr ydym yn bwriadu ei hadfer yn fawn / goetir llydanddail ac ardaloedd newydd o goed brodorol er mwyn creu coridorau natur a chael gwared ar goed conwydd. Plannu a datblygu canopïau er mwyn annog gwiwerod coch.

Rwyf hefyd yn hoffi’r cynlluniau rheoli pren.

Diolch yn fawr. Rwyf wrth fy modd â’r cynlluniau.

Fel un o’r trigolion lleol rwy’n gwerthfawrogi’r ffaith bod yr ardal wedi’i chadw ar gyfer bywyd gwyllt, wrth hefyd ddarparu adnodd naturiol pren, i’r wlad. Nid yw’r pren wedi’i gynaeafu’n eang ar raddfa fawr ond mae’n cael ei weithio mewn modd cydnaws fel y gall y bywyd gwyllt addasu i’r newidiadau.

Mae’r cyfan wedi’i wneud yn dda iawn. Da yw gweld bod peth ymdrech yn cael ei wneud i reoli’r ardal.

Mae’r cynllun yn gyfaddawd da rhwng llawer o faterion sy’n cystadlu â’i gilydd. Rydyn ni’n hoffi’r ffaith bod y twyni tywod yn cael eu hadfer, a bod llennyrch coetir a choetir llydanddail arfordirol yn cael eu creu.

Dwi’n cefnogi’r ffordd y mae’r goedwig yn cael ei rheoli, a’r amcanion, ond dylid ei rheoli mewn ffordd sensitif a pheidio â’i hanharddu drwy waith cwympo coed eang, nes ei bod yn edrych yn noeth, fel sydd wedi digwydd mewn rhai rhannau o’r Alban.

Rwy’n hoffi’r ffaith bod y cynllun yn cynnwys cwympo rhywogaethau o goed anfrodorol a choed conwydd, er mwyn annog fflora a ffawna brodorol i ddychwelyd.

Yn gefnogol o’r bwriad i adfer a chynnal cynefin twyni trwy reoli coetiroedd priodol.

Cefnogir y cynnydd mewn maint o bren marw i gynyddu bioamrywiaeth a rheoli INNS .

Croesawir y bwriad i ddiogelu henebion a nodweddion hanesyddol o ystyried arwyddocâd hanesyddol/diwylliannol yr ardal

Cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn rhywogaethau cynhenid o goed, a'r parodrwydd i barhau i weithio gyda grŵp coetir cymunedol Llyn Parc Mawr

Rydym o’r farn bod y cynigion yn gyffredinol dda gyda rhai newidiadau cadarnhaol …

Cwympo coed o fewn y brif goedwig. Rwy’n cytuno â CNC y dylid cadw ardaloedd cwympo coed yn fach er mwyn lleihau effeithiau negyddol.

Mae’n bwysig nodi bod coedwig Niwbwrch yn cynhyrchu rhywfaint o bren o ansawdd uchel, sy’n dod i mewn i’r gadwyn gyflenwi yn y DU. Dylid parhau i dyfu a chyflenwi pren masnachol er mwyn cefnogi’r elfen o goedwig Niwbwrch sy’n weithredol.

Cwningar Niwbwrch. Mae CNC yn gwneud gwaith ardderchog o ran rheoli’r ardal arbennig hon. Mae’n ymddangos bod y dwyster pori wedi taro’r cydbwysedd cywir o ran uchder y glastir. Mae hyn i’w weld yn y fflora cyfoethog a phwysig ar draws y safle. Mae’n ymddangos bod ecosystem y twyni mewn cyflwr da.

Rwy'n hoffi'r cynllun i adfer cysylltedd y canopi ac i wella amrywiaeth strwythurol.

Mi fuaswn i'n hoffi dweud mod i'n cefnogi'r cynlluniau newydd yn Niwbwrch: i sefydlu Coetir Twyni mwy naturiol ger yr arfordir, a mwy o le i gynefinoedd twyni tywod ger y môr. Mae Niwbwrch yn safle arbennig iawn am bryoffytau prin, a mae'r rhywogaethau arbennig sydd wedi cael eu cofnodi yno i gyd yn y cynefinoedd twyni. Mae ymchwil gwyddonol yn dangos fod sborau bryoffitau, ar adegau, yn aros yn hyfyw yn y pridd am flynyddoedd maith. Felly mae'n bosib y bydd y cynefinoedd twyni hyn yn adfywio rhywogaethau annisgwyl . Mi fydd yn ddiddorol gweld pa rywogaethau fydd yn datblygu ar ol sefydlu'r coetir twyni hyn.

O safbwynt y diddordeb bryolegol, mae unrhyw gynllun i leihau'r gorchudd conwydd a symud tuag at gynefin twyni tywod mwy 'naturiol' i'w groesawu, ac fe ddylai fod yn nod hirdymor. Byddem yn cefnogi'n gryf unrhyw gynllun a oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r amcan hwn.

Dyna un o'r awgrymiadau gorau – dylai hwn fod yn bwynt bwled cyntaf - yn enwedig i edmygwyr coedwig gonwydd A yw hyn am ddigwydd go iawn ? *Mewn perthynas a - Edrych am gyfleoedd i greu coetir newydd o amgylch y goedwig bresennol ac i ddigolledu am golledion posibl yn y tymor hir oherwydd adfer cynefinoedd twyni tywod.*

## Sylwadau niwtral am y cynllun a'i amcanion:

Mae'r system eco sydd yno nawr wedi bod yno ers 70 mlynedd bellach, ac yn yr amser hwnnw mae wedi datblygu i fod yn amgylchedd cymysg o fywyd gwyllt gwahanol. Yno mae'r gwningar, a nawr mae'r goedwig hefyd. Rwy'n teimlo na ddylen ni fynd tuag yn ôl, ond yn hytrach fe ddylen ni geisio achub y ddau.

Mae'r cynlluniau'n rhoi llawer o sylw ar ofalu am y llystyfiant wrth gwrs, ond ychydig iawn o gynllunio sydd i'w weld ar gyfer y bobl sy'n ymweld â'r safle hwn, gan gynnwys y bobl leol o Niwbwrch.

Geosystem waddodol aberol yw Niwbwrch, sy'n nodwedd gyfyngedig iawn lle mae prosesau cludo gwaddod yn rhyngweithio â chydrannau biotig i greu tirweddau nodedig a nodweddir gan olyniaeth o fathau o lystyfiant ar dywod o darddiad morwrol. Mae'r patrwm nodweddiadol o lystyfiant ar dwyni o'r fath yn ymestyn o'r blaendraeth, i'r traethlin, twyni embryo, twyni symudol, llaciau twyni, twyni sefydlog ac, yn y pen draw, i rostir twyni neu goetir twyni gyda phellter o'r lan. Mae hwn hefyd yn adnodd hynod werthfawr o safbwynt ei fioamrywiaeth amrywiol oherwydd y micro-gynefinoedd cyferbyniol a'r amodau ynddynt sydd o dan bwysau. Mae'n bosibl mai Niwbwrch yw'r ardal warchodedig fwyaf gwerthfawr yng Nghymru, yn rhinwedd y ffaith bod 32 o nodweddion SoDdGA cydnabyddedig yno, sy'n fwy na'r 27 o nodweddion a hysbyswyd a geir ar draws 20,000 hectar helaeth ACA Eryri.

Hapus mewn egwyddor, ond angen torri mwy.

Ymylol. *Mewn perthynas a - Bydd ecosystem y coetir yn parhau i ddarparu cynefinoedd ar gyfer nifer o rywogaethau o adar, mamaliaid fel ystlumod a thylluanod, yn ogystal ag infertebratau ac ystod amrywiol o fflora cysylltiedig. A cynyddu nifer y coed marw yn y goedwig, sy'n cefnogi biota amrywiol o fewn ecosystem y goedwig.*

Ar bob cyfrif gyhyd ag nad ydyw yn amodi gwir natur y safle. *Mewn perthynas a - Parhau i ddarparu mynediad hamdden helaeth i dirwedd goedwig unigryw a chyrchfan arfordirol sy'n economaidd bwysig yn ogystal â darparu buddiannau llesiant i ymwelwyr a chymunedau Niwbwrch, Ynys Môn a gogledd-orllewin Cymru.*

Ar bob cyfrif gyhyd ag nad ydyw yn amodi gwir natur y safle. *Mewn perthynas a - Rheoli'r goedwig i helpu i ddarparu mynediad agored gyda chyn lleied o gyfyngiadau a phosib, a phrofiad rhyngweithiol a boddhaus i ymwelwyr tra'n lleihau effeithiau nifer yr ymwelwyr ar fioleg, treftadaeth a thirwedd y safle.*

Dweud yr amlwg gyhyd a'i fod yn parchu prif nodweddion naturiol y safle. *Mewn perthynas a - Gweithio'n gydgynhyrchiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi i helpu i ddatblygu a chyflwyno 'Cynllun Pobl' tymor hir cynaliadwy ar gyfer defnyddio safleoedd yn y dyfodol, ar gyfer yr economi leol, a mynediad hamdden i'r goedwig a'r ardal gyfagos.*

# Materion a godwyd sy'n herio'r cynllun a'i amcanion neu nad ydynt yn eu cefnogi:

**<u>Colli coedwig/llwyrgwympo coed</u>**

Mae'r cynlluniau yn anodd iawn i'w dilyn ond, o'r hyn a glywais yn y cyfarfod, hoffai'r amgylcheddwyr iddo fynd yn ôl i fod yn gwningar a chael gwared ar y goedwig.

Nid wyf yn hapus gyda'r cynlluniau sy'n ymddangos eu bod yn caniatáu i'r goedwig ddirywio – llaciau twyni oedd yr ardal yn wreiddiol ond, er i'r goedwig gael ei sefydlu yn eithaf diweddar (tua 70 mlynedd yn ôl), mae gennym bellach amgylchedd sefydledig ochr yn ochr â'r twyni sy'n weddill a'r gwningar. Mae coed, planhigion a bywyd gwyllt y goedwig wedi datblygu eu hecoleg eu hunain ac yn ategu'r ardal, o safbwynt cadwraeth ac o safbwynt esthetig. Mae eich cynlluniau yn caniatáu i berimedr y goedwig gael ei phoblogi â rhywogaethau brodorol – mae'n dal yn aneglur a fydd y rhain yn goed a blennir neu a fydd llwyni a choed yn cael sefydlu'n naturiol.

Yng nghanol y goedwig mae cymysgedd o goed pinwydd, coed conwydd, rhywogaethau brodorol ac ati. Rydych chi'n ei deneuo i adael coed sefydledig. Nid oes unrhyw gynlluniau i ailblannu coed newydd er mwyn cynnal y rhan hon o'r goedwig yn y tymor hir. Yn y bôn, dros amser, ac o ganlyniad i'r gwaith teneuo, bydd yr ardal yn dychwelyd i'r llaciau twyni a fyddai'n well gennych, ond rwy'n credu y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar yr ardal o safbwynt twristiaeth a thrigolion. Nid wy'n credu y dylem fynd tuag yn ôl … gyda mwy a mwy o ardaloedd yn cael eu datgoedwigo yn y byd, mae'n teimlo'n bwysig cynnal a chadw'r ardal fechan hon o goetir a chaniatáu iddi ffynnu.

Twristiaeth yw un o'r prif ffynonellau o gyflogaeth yn yr ardal. Daw ymwelwyr yma am yr amrywiaeth o dirweddau y mae'r ardal hon yn eu cynnig – y gwningar, y twyni, y traeth, y goedwig, y llwybrau arfordirol ac ati. Heb y goedwig, byddai twristiaeth a chyflogaeth yn Niwbwrch a'r ardal gyfagos yn dioddef. Roedd cael gwybod yn yr ymgynghoriad mai cadwraeth yw eich blaenoriaeth, nid twristiaeth a'r economi leol, yn syndod. Ydy, mae cadwraeth yn bwysig, ond nid ar draul popeth arall – byddai hyd yn oed CNC yn gweld gostyngiad yn eu hincwm pe bai twristiaeth yn yr ardal yn gostwng, a byddai hynny yn ei dro yn rhwystro'r ymdrechion dros gadwraeth.

Ar hyd aber afon Cefni, ac yng nghornel de-ddwyreiniol y goedwig mae rydych chi wedi labelu rhannau sylweddol o'r goedwig yn llednais fel ardaloedd 'rheoli addasol'. Mewn gwirionedd maen nhw'n ardaloedd sydd i'w llwyrgwympo. Dylid nodi hefyd y bydd y disgrifiad wedi camarwain llawer o bobl na fyddant wedi sylweddoli beth yw goblygiadau'r dynodiad.

Nid oes unrhyw sail resymegol ecolegol gadarn dros gael gwared ar goedwigoedd yn yr ardaloedd hyn. Ar hyd aber afon Cefni mae'r twyni symudol presennol yn y parth blaendwyn, yr egin-dwyni a'r twyni symudol, mewn cyflwr ecolegol da AC nid oes angen cefnwlad o wahanol gynefinoedd twyni sefydlog arnynt er mwyn iddynt barhau i ffynnu. Mae'r cynllun yn dwyn i gof nonsens Cyngor Cefn Gwlad Cymru o greu pob math o gynefin twyni o amgylch pob ffin i'r goedwig ac, wrth wneud hynny, gwthio'r goedwig yn ôl o'r twyni blaen a'r traeth gan ei datgysylltu oddi wrth y môr, y traeth a'r morluniau.

Nid yw Ynys Môn, Cymru na'r DU yn brin o dwyni arfordirol helaeth, ac ar yr ynys yn Niwbwrch, yn y gwningar, mewn ardal eang iawn yn Aberffraw, ac o Borth Trecastell i Rosneigr ceir y dilyniant cyfan o flaendwyni symudol i gynefinoedd twyni sefydlog. Mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU mae yna rannau eang iawn o'r arfordir lle mae'r holl gynefinoedd twyni yn bresennol. Nid yw'r DU yn brin o gynefinoedd twyni. Yr hyn yr ydym yn brin ohono yw coedwigoedd arfordirol sydd â chysylltiad

agos â rhan uchaf y lan a thraethau. Bydd y cynllun yn datgysylltu'r goedwig o wrth y môr a'r traeth ac yn diraddio'n sylweddol fwynhad ac iechyd a llesiant y rhai sy'n dymuno mwynhau coedwig a'r môr gyda'i forluniau bythol newidiol.

Caiff mwy o niwed ei achosi wrth gladdu a dinistrio'r llwybr troed sy'n rhedeg y tu cefn i grib y blaendwyni, a bydd coed y goedwig a fydd bellach yn agored i'r elfennau o ganlyniad i'r gwaith cwympo yn dioddef gan y gwynt oherwydd eu bod wedi tyfu yng nghysgod y coed presennol – y bwriedir cael gwared arnynt o dan y cynllun. Ni fydd ffin newydd y goedwig wedi ymaddasu i'r tywydd ac mae'n debygol y bydd yn dioddef difrod sylweddol mewn tywydd garw.

Bydd y gwaith cwympo arfaethedig yng nghornel dde-ddwyreiniol y goedwig, rhwng y prif faes parcio a'r gwningar, yn cael yr un effaith. Nid oes unrhyw sail ecolegol resymegol na rhesymeg o ran y newid yn yr hinsawdd ychwaith dros gwympo coed yn y naill ardal na'r llall a ddynodwyd yn ardal 'rheoli addasol'.

Mae coed a choedwigaeth ymhell i lawr y rhestr gryno o amcanion: fe ddylent fod ar y brig neu'n agos at y brig ar gyfer ardal y goedwig – nid yw hynny'n golygu rhoi llai o sylw i amcanion, yn hytrach mae'n dangos bod y "goedwig" yn goedwig yn anad dim (a'r gobaith yw mai felly y bydd hi).

Dylid adolygu'r cynllun a dileu'r amcan o symud y goedwig yn ôl o barth y blaendwyni. Nid yw'n seiliedig ar resymeg ecolegol gadarn, ac mae'n ddiangen, ond byddai'n achosi niwed mawr i fanteision iechyd a llesiant y goedwig o safbwynt y ffaith bod cysylltiad agos rhyngddi â rhan uchaf y lan.

Colli coetir / coedwig / ardal dan orchudd coed yn gyffredinol – nid oes gennym ddigon o goed ar Ynys Môn beth bynnag. Nid ydym yn cynhyrchu digon o bren yng Nghymru.

Ni ddylid torri'r coetir pwysig hwn er mwyn creu rhagor o gynefin twyni oni bai, a hyd nes y bydd natur a maint y gwaith cwympo arfaethedig wedi'i ddiffinio'n gywir, ac yna bod ymgynghoriad wedi'i gynnal. Yn bendant, ni ddylid cwympo mwy o goed gan amlygu ffurfiannau creigiau, a hynny ar draul cynefin y wiwer goch. Cafodd ardaloedd mawr o goed pinwydd eu tynnu o'r ffurfiannau craig hyn a thrwy wneud hynny tynnwyd cynefin allweddol y wiwer goch i ffwrdd ac fe gafodd y goedwig ei darnio. Mae canlyniad y gwaith cwympo coed hwn yn ddinistriol i'n gwiwerod coch brodorol sydd mewn perygl, ac mae darnau mawr o dir ynddi bellach yn ardaloedd diffaith. Mewn gwirionedd, roedd yn edrych yn fwy naturiol pan oedd y coed yn tyfu fel yr oeddent o gwmpas y creigiau ac arnynt.

Mae rhywfaint o waith torri coed eisoes wedi digwydd o amgylch ymyl allanol y goedwig, o dan ymbarél Twyni Byw heb i unrhyw ymgynghori pellach gael ei gynnal ynglŷn â'r gwaith hwn, a oedd wedi'i atal ers blynyddoedd, dim ond iddo aros tan yr amser iawn i ail-ymddangos.

Ni fu erioed brawf bod y goedwig wedi cael effaith andwyol ar y lefel trwythiad ac felly ni all fod yn cael effaith andwyol ar y twyni, a chan fod mesuriadau yn dal i gael eu cymryd, sef mesurau a gymerwyd ers blynyddoedd lawer, pe bai hynny'n wir byddai'r canfyddiadau wedi cael eu cyhoeddi ers meitin, fel y dylai fod wedi digwydd o dan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae yna lawer a hoffai gael y cynefin twyni tywod fel y prif atyniad gan ddweud y gallai fod angen cael gwared ar ragor o goed conwydd er mwyn caniatáu i'r system dwyni newid dros amser, ond mae'r goedwig arbennig hon yn hollbwysig i lawer o gynefinoedd ac i'r rhywogaethau sy'n byw ynddi, a dylid ei hamddiffyn rhag ymlediad gan bobl sy'n ystyried ei bod yn llai pwysig na'r system dwyni helaeth sydd eisoes yn bodoli.

Nid oes dim byd unman yn y cynllun yn pwysleisio mai'r goedwig yw'r peth pwysicaf oll, nac ychwaith bod cysylltiad agos rhwng y goedwig, y traeth a'r blaendwyn yn nodwedd allweddol i'w chynnal, gan ddarparu cysgod y coed i gerddwyr a golygfeydd hyfryd o'r môr, y traeth a mynyddoedd pell, gydag Ystad Bodorgan ac aber Malltraeth yn y blaendir. Mae'r ffaith y gall rhywun arogli a chlywed y môr o goedwig yn nodwedd na ellir ei gorbwysleisio.

Ar y dechrau rhoddais 'Nid oes dim byd unman yn y cynllun yn pwysleisio mai'r goedwig yw'r peth pwysicaf oll', ac mae'n amlwg i mi mai'r twyni tywod sy'n cael blaenoriaeth, sy'n golygu clirio coed pan ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau iechyd y twyni.

Mae coedwig Niwbwrch yn fach, ac mae parhau i dorri rhannau i lawr er mwyn cael cynefin twyni yn ei gwneud hi'n anoddach sicrhau bod poblogaeth o wiwerod yn ffynnu. Mae angen i CNC gadw cofnod o niferoedd y gwiwerod a chofnod o'r coed a blannwyd er mwyn cynnal poblogaeth gynyddol uwch ohonynt. Mae ymwelwyr wrth eu boddau yn gweld gwiwerod coch a llawer o greaduriaid eraill. Unwaith eto, rhaid imi bwysleisio ei bod yn hollbwysig cadw'r cysylltedd rhwng y goedwig a'r traeth, oherwydd mae cysylltiad y goedwig â'r môr yn brin ac mae angen ei drysori.

Yn bendant, NI DDYLID cwympo'r un goeden arall er mwyn creu cynefin twyni, oni bai a hyd nes y bydd union natur, ac yn bwysig iawn helaethrwydd y gwaith cwympo, wedi'i ddiffinio'n briodol ac yna bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ei gylch.

DIM MWY o gwympo coed i amlygu ffurfiannau creigiau, ar draul unrhyw gynefin i wiwerod coch.

**Ymateb CNC**

**Mae'r mapiau'n dangos y weledigaeth hirdymor arfaethedig ar gyfer Coedwig Niwbwrch a'r gwaith rheoli coedwigoedd sydd ei angen i helpu i gyflawni'r weledigaeth, sy'n cynnwys rhai ardaloedd sydd i'w llwyrgwympo. Yn y tymor hir, bydd strwythur craidd y goedwig, sydd wedi datblygu dros y 70 mlynedd diwethaf, yn parhau i gael ei reoli er mwyn cynnal ecosystem y goedwig sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys gwiwerod coch. Yn ogystal, bydd y goedwig hefyd yn parhau i gefnogi gweithgareddau cynhyrchu pren ac yn darparu cynefin arfordirol a lleoliad unigryw i bobl leol ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn dangos ac yn cydnabod y bydd gostyngiad graddol yn y gorchudd coetir caeedig dros y tymor hir er mwyn gwella cyflwr y cynefinoedd twyni tywod ar hyd yr arfordir. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 60 hectar yn y gorchudd coedwig, o 670 hectar i 610 hectar dros y 30 mlynedd nesaf. Yn y tymor byrrach bydd gostyngiad o 10 hectar dros y 10 mlynedd nesaf. Mae hyn yn gwbl angenrheidiol ac yn ofyniad cyfreithiol er mwyn cyflawni'r amcanion cadwraeth a nodir yng nghynllun rheoli craidd yr ACA. Heb y newid hwn ni fyddai CNC yn gallu cael cymeradwyaeth i gynllun na fyddai'n cyflawni ei ddyletswydd statudol a chyfreithiol o ran rheoli'r Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a warchodir yn genedlaethol, a'i nodweddion cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys y system twyni agored ar hyd y lan arfordirol, llystyfiant llaciau twyni yn y gwningar a thafolen y traeth. Ymhellach, mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cadarnhau bod y newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion gwarchod nodweddion cadwraeth yr ACA hon.**

**Yn wreiddiol, roedd y cynlluniau drafft ar gyfer yr ymgynghoriad yn cynnwys 'rheoli addasol' yn yr ardaloedd coediog ger y lan i ganiatáu ar gyfer gwaith cwympo, yn ôl yr angen, er mwyn cael yr effaith leiaf ar y cnydau i'r tu cefn, tra'n adfer y system dwyni. Ni chynigiwyd unrhyw waith cwympo ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, ac roedd y cnwd y tu ôl i gael ei deneuo a'i drawsnewid yn araf i goetir twyni brodorol. Fodd bynnag, mae'r cynnig hwn bellach wedi gorfod newid ar ôl yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Roedd angen ymrwymiad i barhau i gael gwared ar y coed ar hyd y lan er mwyn cyflawni amcanion cadwraeth yr ACA, ac mae'r ardaloedd a ddangosir fel ardaloedd**

**'rheoli addasol' wedi'u diwygio i 'flynyddoedd cwympo' gwirioneddol. Bydd 10.7 hectar o'r ar flaen y lan yn cael ei thorri yn ystod y 10 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r amcanion cadwraeth, a'r disgwyl yw y bydd gwerth 10.9 hectar arall o goed yn cael eu cwympo yn ystod y 10 mlynedd ar ôl hynny, ac yna gwerth 7.5 hectar o goed yn ystod y 10 mlynedd nesaf ar ôl hynny. Mae'r camau hyn wedi'u trefnu er mwyn lleihau'r effaith ar y goedwig y tu cefn, lle bydd gwaith teneuo'n helpu i ddatblygu'r coetir twyni brodorol drwy adfywio a thanblannu pan fo angen. Bydd gwaith ailstocio coed conwydd a choed llydanddail yn parhau yn y goedwig graidd i'r tu cefn. Bydd hwn yn drawsnewidiad hirdymor araf ar hyd blaen y lan y lan, a bydd yn cymryd hyd at 30 mlynedd i'w gyflawni.**

<u>**Diffyg amddiffyniad ACA i gynefin twyni tywod agored**</u>

Mewn perthynas â Chynllun Adnoddau Coedwig Niwbwrch, prin yr wyf wedi gweld cynllun mor anghydlynol. NID yw'r cynllun yn addas i'r pwrpas. Mae yma fethiant i strwythuro'r cynllun mewn ffordd ystyrlon. Yn waeth byth, fodd bynnag, yw'r methiant i gynnwys a mynd i'r afael â materion pwysig, a allai olygu ei fod yn agored i her gyfreithiol:

Yn gyntaf nid oes sôn bod y safle yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig oherwydd y prosesau arfordirol sy'n gysylltiedig â'r twyni tywod. Yn y cyd-destun hwn mae'n safle pwysig iawn, hyd yn oed yn fwy felly yng nghyd-destun newid hinsawdd, sy'n ystyriaeth allweddol.

Dim ond ers y 1950au y mae'r goedwig artiffisial wedi bodoli yn Niwbwrch, pan gafodd ei phlannu yn un o'r cynefinoedd twyni mwyaf a phwysicaf yn y DU, er gwaethaf protestiadau. Mae cadw'r dirwedd hon o waith dyn, sydd wedi gwneud llawer mwy o ddrwg i fioamrywiaeth yr ardal nag o les iddi, o dan y gochl syml ei bod o fudd i wiwerod coch a gweithgareddau hamdden pobl yn ymddangos braidd yn anghyfiawn. Bydd pobl yn mwynhau gweithgareddau arfordirol beth bynnag yw'r cynefin o'u cwmpas, ac o ran y gwiwerod coch, ydyn, maen nhw wedi'u gwarchod ac yn brin, ond nid nhw yw'r unig organeb sydd yn y sefyllfa hon yn yr ardal hon, ac eto dyma un o'r unig rai y mae angen cynefin pinwydd arnynt i ffynnu. Mae'n ymddangos bod y gwiwerod yn cael eu defnyddio fel esgus ciwt a blewog i gynnal cynefin nad yw mewn gwirionedd o fudd i'r mwyafrif o'r bywyd gwyllt yr ardal. Gellir cymhwyso hyn hefyd i'ch amcan i ddod o hyd i ardaloedd newydd o goetir i'w plannu yn sgil adfer y twyni. Roedd yr ardal hon yn gynefin twyni nes bod pobl wedi penderfynu ei newid er eu lles nhw'n unig. Dylai adfer y twyni fod o'r pwys mwyaf. Ymddengys fod gogwydd cryf iawn yn yr amcanion hyn tuag at goedwigo, hyd yn oed yn y rhan agoriadol lle cyfeirir at yr ardal fel coedwig Niwbwrch, gan gyfeirio'r twyni a'r gwningar wrth fynd heibio.

Er fy mod yn deall na ellir dadwneud yr hyn a wnaethpwyd, a bod coedwig wedi bod yn Niwbwrch ers dros hanner canrif, mae'r gogwydd tuag at goetir, ac yn benodol, planhigfa yn thema gyffredin ac amlwg iawn o hyd yn y ddogfen hon.

Nid wy'n hoffi'r ffaith y derbynnir o hyd y dylai Niwbwrch barhau i fod o dan orchudd cymunedau o blanhigion coediog. Wrth wneud hynny, mae CNC yn anwybyddu ei gyfrifoldeb rhyngwladol i warchod ACA sydd wedi'i chreu'n naturiol gan brosesau arfordirol. Gellir amau a fyddai ardal Niwbwrch yn cefnogi unrhyw ardaloedd o goetir o bwys pe byddai'n cael ei gadael i natur. Yn sicr ni fyddai coetir conifferaidd. Mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau derbynnir y canlyniad naturiol hwn i brosesau ecolegol, a rhoi llawer mwy o bwyslais ar annog a rheoli cynefinoedd agored. Mae blaenoriaethu canopïau caeedig yn rhywbeth hollol ddynol yng nghyd-destun cymunedau arfordirol agored ac, yn yr achos hwn, mae'n ymddangos eu bod dim ond yn bodoli er mwyn sicrhau mwy o allbwn pren a phoblogaethau uwch o'r wiwer goch, sy'n amlwg wedi cael eu cyflwyno i'r safle hwn

heb unrhyw gynsail hanesyddol. Er bod y glwydfan gigfran yn ddiddorol, nid yw'n unigryw, a ffenomen dros dro yw hi o ran amser a lle o ystyried strwythur cymdeithasol hynod drefnus y rhywogaeth hon, ei llwyddiant presennol a'r ffaith bod y boblogaeth ohonynt yn ehangu. Ni fyddai amodau tir agored yn peryglu poblogaethau o'r fadfall ddŵr gribog na'r gelen feddyginiaethol. Ni ellir gorbwysleisio'r manteision sy'n deillio o gymunedau o blanhigion dynamig mwy helaeth ar dir agored, a byddent o fudd i amrywiaeth helaeth o rywogaethau arloesol o blanhigion ac anifeiliaid yr oedd Niwbwrch yn adnabyddus amdanynt ar un adeg.

Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn cael ei weithredu ar wahân i'r uned dir ehangach. Mae hynny'n ddiffyg sylfaenol yn y dull a ddefnyddir. Mae'n dechrau gyda'r dybiaeth bod yr ardal hon yn goedwig, ac mae ar ffurf coedwig y dylai barhau. Nid yw hynny'n wir. Planhigfa ydyw a osodwyd ar system ddaearegol ddynamig sylfaenol. Dylid cwestiynu a yw rhywfaint, neu'r cyfan ohoni'n parhau felly. Nid yw'r ymrwymiad i "Gynnal gorchudd coetir/coedwig cyn belled ag y bo modd tra'n cyflawni amcanion eraill sy'n ymwneud â nodweddion diddordeb ACA/SoDdGA" yn cydnabod bod yr amcanion hyn yn gwrth-ddweud ei gilydd. Mae angen crebachu rhywfaint ar orchudd y planhigfeydd ar y twyni er mwyn cyflawni amcanion cadwraeth yr ACA / SoDdGA.

Galwodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU am adfer twyni yn sgil coedwigo – rhywbeth sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill yn Culbin, Ainsdale, Chwitffordd, Harlech a mannau eraill yn Ewrop. Mewn cyferbyniad, mae'n ymddangos bod y cynllun hwn yn gwneud y gwrthwyneb; cynnig ail-goedwigo rhai ardaloedd sydd eisoes wedi'u clirio.

Dydw i ddim yn hoffi'r ffaith:

- bod y weledigaeth hirdymor yn cynnwys canran uchel o goed conwydd.

- nad oes digon o fannau agored'

- nad yw'r cynllun yn cyflawni gofynion ecolegol y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig.

- nad yw'r cynllun rhoi digon o sylw i'r newid yn yr hinsawdd.

Cyfrifoldeb cyntaf CNC yw gwarchod y twyni, sydd o bwys rhyngwladol ac yn gynefin prin. Mae'r coed pinwydd Corsica (estron) wedi cael eu plannu yno yn y 50au am resymau masnachol (ac oherwydd y gred cyfeiliornus ar y pryd bod rhaid sefydlogi'r twyni. Mae nhw wedi newid natur cynhenid llystyfiant y twyni trwy annog planhigion estron eraill nad ydynt yn perthyn yn arbennig i'r cynefin hwnnw. Mae'r twyni yn naturiol ddeinamig ac o gael llonydd, yn troi o bridd calchog i bridd asid gydag amser gyda grug a llwyni prenaidd yn datblygu yn naturiol yn y pendraw, a'r natur calchog yn gael ei adnewyddu o'r môr gan ychwanegu at y clytwaith amrywiol o gymunedau ecolegol. Mae pobl Niwbwrch wedi byw mewn cytgord efo'r clywaith hwn dros ganrifoedd.

Mae'r cynllun i gynnal y goedwig, hyd yn oed trwy blannu coed cynhenid, yn gwbl groes i integriti y tywyn ac yn gosod blaenoriaethau amwynder 'trefol' o flaen rhai ecolegol. Mae lleoedd o'r fath yn drysorfa ac yn amwynder yn eu hawl eu hunain. Trysorer hwynt am yr hyn ydynt, nid am rhyw ffugle sy'n anwybyddu ac yn dinistrio eu gwir hanes.

Mae'r cynllun yn or-ffafrio coedlannau ar safle twyni tywod gorau Cymru. Mae angen blaenoraethu cynefinoedd twyni.Mae'r safle wedi bod yn dywyn agored ers canrifoedd a ddylia CNC cydnabod hyn.

Tydy "maintain the status quo" fel petai, fel chynigir ar eich cynlluniau ar gyfer Niwbwrch ddim yn dderbyniol dyddiau yma yn anffodus, a dyma pam:
1. Mae ardal twynni Niwbwrch, yn cynnwys ynys Llanddwyn, yn safleoedd o bwysigrwydd

rhyngwladol Ewropeaidd ac wedi eu dynodi a'i gwarchod oherwydd y nodweddion twyni sydd dan fygythiad sylweddol nid yn unig yn Cymru, Prydain ond led Ewrop.
2. Mae'r ardal wedi ei ddynodi yn ACA Ewropeaidd. Mae'r deddfwriaethau yma yn gwarchod ac amddiffyn y cynefin a'i gyfoeth o rywogaethau prin rhag difrod a rheolaeth niwediol. Mae cynlluniau arfaethedig CNC yn groes i phob elfen o gynllun rheolaeth craidd yr ACA. Mae dyletswydd ar CNC i wella ac ehangu ar ansawdd y nodweddion hynny ble mae tystiolaeth neu amcan gryf o niwed yn bresenol. Mae caniatau i goed barhau ar hyd ei'n glannau yn niwediol i'r ACA a mae CNC yn caniatau i hyn barhau am y dyfodolyn groes i'w ddyletswyddau statudol i warchod a diogelu'r nodweddion.
3. Nid yw coed, Coedlan neu choedwig yn nodwedd or ACA ac mae yn achosi cryn ddifrod i'r safle er hyn mae'r darpar gynllun yn annog ail-genhedlu naturiol ar y safle, ymyriad prin, cadw hirdymor neu rheoli addasol, sy'n reolaeth hollol amrhiodol ar gyfer y safle. Dyma'r ardaloedd sydd angen ymyrraeth brys nawr er mwyn cael y cyfle i drio cwrdd a'n ddyletswyddau I ddiogelu'r nodweddion prin.
4. Mae twynni tywod yn gynefinoedd hollol unigryw ac am hyn, yma cewch hyd i'r rhan helaeth o'n rhywogaethau o bwys rhyngwladol. Bychan iawn yw'r canran yng Nghymru o dir a elwir yn twyni y dyddiau hyn a gyda phwysau aruthrol o phob cyfeiriad (effeithiau dynol), credaf fod yn adnodd amrhisiadwy a werth cymryd camau arbennig i'w gwarchod ar gyfer y genhedlaeth nesaf.
5. Nid oes unrhyw awgrym yn y cynllun fod ardaloedd agored am eu creu a'u rheoli felly ar gyfer pryfetach, ffwng, tegeiriannau, mwsoglau, cynefinoedd ymlusgiaid a adar nythu sydd yn rhan anatodo rheolaeth byd natur.

Mae diffyg caniatau prosesau naturiol y safle i ddatblygu a dylanwadu ar reolaeth hefyd yn groes i flaenoriaethau craidd cynllun ACA.

Nid yw'n ymddangos bod y cynllun a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu bod rheoli safleoedd gwarchodedig yn flaenoriaeth, ond yn hytrach ei fod yn rhywbeth i'w ffitio o amgylch anghenion y goedwig a hamdden. Yn benodol, cynigir cyflawni'r gwaith o glirio coed ger y lan dros gyfnod hir iawn a thros ardaloedd eithaf ceidwadol. Dylid ymestyn y broses glirio a'i chyflymu'n sylweddol.

*'Adfer a chynnal nodweddion diddordeb cynefinoedd twyni ACA ar hyd yr arfordir i gyflwr ffafriol yn unol â'r amcanion cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys egin-dwyni, twyni symudol a thwyni sefydlog, twyni gyda* Salix repens *a chynefinoedd llaciau twyni llaith. Gall hyn olygu tynnu coed conwydd oddi ar nodweddion o ddiddordeb a'r ardaloedd cyfagos a chaniatáu mwy o le i'r system twyni tywod newid dros amser'* – Rwy'n croesawu'r amcan hwn, ond prin yw'r dystiolaeth a welaf ar y mapiau ynghylch sut i'w gyflawni. Mae'n ymddangos bod llawer o'r ardal lle gellid disgwyl i egin-dwyni a thwyni symudol ddatblygu wedi'u nodi fel ardal coetir brodorol a reolir. Yn groes i'r datganiad uchod, mae'n ymddangos nad oes lle ychwanegol wedi'i ganiatáu i'r system twyni tywod i newid dros amser drwy brosesau naturiol.

*'Cynyddu coetir twyni arfordirol yn y goedwig. Mae wedi'i ddewis fel safle addas ar gyfer y cynefin prin hwn fel rhan o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.'* – Nid yw plannu coed ar dwyni tywod yn creu'r cynefin a elwir yn goetir twyni, hyd yn oed os yw'r coed yn frodorol. Mae llawer o'r ardaloedd a ddangosir fel coetir llydanddail yn agos iawn i ymyl y goedwig sy'n wynebu'r môr. Yn gyffredinol, mae coetir twyni i'w gael tuag at gefn system dwyni, ac er bod y newid i ffwrdd o goed conwydd i goetir llydanddail yn debygol o fod yn fuddiol i fioamrywiaeth, byddai'n well gadael ardaloedd sy'n fwy o faint a heb eu plannu yn gyfagos i'r traethau a Gwarchodfa Natur Genedlaethol y twyni, a'u rheoli fel twyni neu laswelltir twyni.

*'Caniatáu i brosesau naturiol ddod yn fwy amlwg ar draws y safle cyfan'* – Nid yw'n glir sut y gellir cyflawni hyn wrth reoli llawer o'r ardal fel coetir conwydd. Dylid rhoi blaenoriaeth i dynnu coed o'r mannau sydd agosaf at y traethau a'r twyni agored, a hynny'n gynt na'r hyn a nodir er mwyn caniatáu i brosesau arfordirol a phrosesau twyni naturiol ddigwydd.

Cwningar Niwbwrch yw'r system dwyni fwyaf helaeth yng Nghymru. Mae'n AHNE, yn IPA Plantlife, ac yn Safle Adolygu Cadwraeth Ddaearegol, yn ogystal â bod yn Warchodfa Natur Genedlaethol, ACA a SoDdGA. Ar hyn o bryd, rydym yng nghanol argyfwng cadwraeth natur gyda gostyngiadau sylweddol ar draws tacsonau. Mae safleoedd fel Niwbwrch o werth ac arwyddocâd ecolegol arbennig.

Yn benodol, mae twyni arfordirol yn cynnal casgliad cyfoethog ac unigryw o rywogaethau a chynefin na all ddigwydd yn unman arall heblaw yn y llain denau hon o gynefin sy'n bresennol ar hyd ychydig dros 14 y cant o arfordir Cymru. Mae twyni'n dal biomas cymesurol uwch o rywogaethau prin a rhywogaethau sydd o dan fygythiad nag unrhyw gynefin arall yn y DU.

Felly, roedd fy nghydweithwyr a minnau'n siomedig â'r Cynllun Adnoddau Coedwig diweddaraf ar gyfer Niwbwrch. Yn benodol:

- Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn cynnig y dylid parhau i reoli coetir anfrodorol a brodorol ar safle twyni arfordirol o bwysigrwydd cadwraeth natur sylweddol, ac yn y pen draw mae'n bygwth bodolaeth barhaus cynefinoedd a rhywogaethau arbenigol sydd wedi esblygu dros filoedd o flynyddoedd o dan brosesau dynamig agored.
- Mae ffactorau edaffig a osodwyd ar gorff y twyni tywod gan goetir yn cael effaith negyddol ar nodweddion statudol â blaenoriaeth ac yn parhau i wneud hynny.
- Nid yw'r Cynllun Adnoddau Coedwig fel y'i cyflwynir ar hyn o bryd yn bodloni gofynion y nodweddion statudol, ond yn hytrach mae'n ffafrio rhywogaethau sy'n dibynnu ar gynefin coetir o werth cadwraeth is.
- Mae presenoldeb parhaus coetir o unrhyw fath ar rannau helaeth o'r safle yn groes i'r amcanion fel y'u diffinnir yn y testun, a hynny ar lefel sylfaenol, sef hybu ac adfer prosesau naturiol a chyfanrwydd geomorffolegol ac adfer nodweddion statudol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal ac adfer cynefinoedd egin-dwyni, twyni symudol a thwyni sefydlog, a chynefinoedd llaciau twyni llaith.
- Mae ymagwedd groes o'r fath at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn fethiant yn y cynllun.

Ymhellach, mae cyrff dŵr, nentydd a pharthau glannau afonydd – sydd, yn ddiweddar, wedi'u dyrchafu i lefel nodweddion cymhwyso ar gyfer eu dynodi'n SoDdGAau yn eu rhinwedd eu hunain – yn hanfodol i gynnal poblogaethau cynaliadwy o herpetoffawna a thacsonau eraill, gan gynnwys y fadfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*), sy'n rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, a'r llyffant dafadennog (*Bufo bufo*), sy'n rhywogaeth sy'n prinhau.

Nid yw'r angen i sicrhau mwy o gysylltedd ar draws y safle wedi'i gyfyngu i gasgliad o amffibiaid Niwbwrch yn unig. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleoedd i ymlusgiaid fodoli, rheoli eu tymheredd a chwilota am fwyd yn gyfyngedig, ac mae angen eu gwella ar gyfer madfall y twyni a hefyd y fadfall fywesgorol (*Zootoca vivipara*). Gellid cyflawni hyn drwy ei gwneud yn bosibl i glytwaith o strwythur twyni a phrysgwydd agored i fodoli a pharhau ar draws y safle cyfan a, lle bo'n briodol, o fewn yr olyniaeth seral. Byddai sicrhau amodau sy'n galluogi'r twyni agored, y twyni sefydlog a'r llaciau i barhau ar draws y safle yn arwain at boblogaethau mwy cadarn o amffibiaid ac ymlusgiaid, yn ogystal â galluogi rhywogaethau di-asgwrn-cefn, a rhywogaethau blodeuog arbenigol y twyni i ymledu.

Ymddengys fod y Cynllun Rheoli Coedwig, ar ei ffurf bresennol, yn rheoli'r safle ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd nad ydynt yn nodweddion o ddiddordeb ar hyn o bryd. Er eu bod efallai'n ystyriaethau, maent yn eilradd iawn i rwymedigaeth gyfreithiol CNC. Mae hyn yn codi'r cwestiwn: pam mae CNC yn parhau i gynnal yr ardal fel coedwig a'i rheoli felly, a pham nad yw'n mynd i'r afael â gofynion y rhywogaethau unigryw sy'n nodweddion statudol o ACAau a SoDdGAau?

Ar hyn o bryd mae CNC yn rhoi llawer iawn mwy o flaenoriaeth i ofynion rhywogaethau coetir nag anghenion y rhywogaethau sy'n byw mewn twyni, a hynny ar safle twyni tywod dynodedig o bwysigrwydd mawr. Mae'r twyni dros 1,000 o flynyddoedd oed, ac wedi datblygu ffawna a fflora dros amser, o'u cymharu â'r goedwig sy'n anfrodorol i raddau helaeth, sydd ond wedi bod yno ers 70 mlynedd, ac sydd allan o'i le ar y system twyni tywod brin hon sydd o dan fygythiad ac o arwyddocâd Ewropeaidd.

Mae hyn yn creu cynefinoedd newydd nad yw'n rhan o brif nodwedd y safle – y twyni ? *Mewn perthynas a - Gwella strwythur mewnol y goedwig drwy ddatblygu amrywiaeth dosbarth oedran, amrywiaeth o goed o ran maint a chymysgedd o rywogaethau lle bo hynny'n bosibl. Gellir cyflawni hyn drwy barhau i reoli coedwigoedd gan ddefnyddio systemau coedamaeth effaith isel. Gall y rhain gynnwys cwympo coed mewn stribedi bach, cwympo coed mewn grwpiau a pharhau i deneuo cnydau conwydd.*

Ia – ond heb symud y conwydd ni fydd hyn yn digwydd. *Mewn perthynas a Caniatáu i brosesau naturiol ddod yn fwy blaenllaw ar draws y safle cyfan.*

**Ymateb CNC**

**~~Nid~~ pwrpas y Cynllun Adnoddau Coedwig yw hwyluso'r gwaith o dynnu coed, na chael gwared ar goedwig Niwbwrch o'r ardal yn y pen draw. Ei ddiben yw helpu i reoli'r goedwig a'i datblygu mewn ffordd sy'n amddiffyn yn bennaf yr holl rywogaethau a chynefinoedd dynodedig a sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n gyfreithiol â deddfwriaeth y DU wrth wneud hynny, tra hefyd yn bodloni holl amcanion dymunol coedwig amlbwrpas sydd eisoes wedi'i sefydlu ac wedi bod yn bresennol ers dros 70 mlynedd. Y pwrpas yw creu cynllun sy'n cydbwyso'r holl amcanion a amlygwyd rhwng cadwraeth, y goedwig a phobl. Byddai cael gwared ar y goedwig yn ateb eithafol a dadleuol i gyflawni un amcan, ac nid yw'n ateb derbyniol i nifer o randdeiliaid a'r cyhoedd. Byddai hefyd yn groes i'r Ddeddf Coedwigaeth a Safon Goedwigaeth y DU. Byddai hefyd yn dinistrio cynefinoedd ar gyfer y rhywogaethau a warchodir y mae'r goedwig yn eu cynnal. Er bod y goedwig o waith dyn, fe'i cydnabuwyd fel nodwedd sefydledig o'r safle pan gafodd ei dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae llawer o'n safleoedd gwarchodedig wedi'u creu o waith dyn ac yn bennaf gyfrifol am y ffaith bod rhywogaethau prin ac anarferol yn ffynnu yno. Mae'r ACA hefyd yn cwmpasu ardal sy'n llawer mwy na'r goedwig ei hun, ac mae'r ardaloedd hyn hefyd yn cynnal y rhywogaethau a'r cynefinoedd dynodedig.**

**Er mwyn bodloni gofynion cynllun rheoli craidd yr ACA a'r amcanion cadwraeth mewn perthynas â'r nodweddion o ddiddordeb sydd wedi'u rhestru, mae'r cynllun yn cynnig newidiadau mawr i'r goedwig. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cynefinoedd agored ar hyd y draethlin er mwyn cyrraedd y targed o gael 95% o gynefin twyni ar hyd arfordir yr ACA gyfan. Bydd y cynefinoedd hyn yn cynyddu gan oddeutu 40 hectar dros y 30 mlynedd nesaf, a chan o leiaf 10 hectar yn ystod y deng mlynedd nesaf, drwy lwyrdorri darnau o goedwig ar hyd yr arfordir. Hefyd bydd cynefinoedd prysgwydd twyni yn cynyddu gan oddeutu 20 hectar. Bydd y ddau newid hyn yn y pen draw yn arwain at ostyngiad o 60 hectar mewn coetir canopi caeedig, sef o 670 hectar i 610 hectar. Bydd rhai o'r mannau agored newydd hefyd yn cyfrannu at welliannau yng nghyflwr cynefin tafolen y**

**traeth a llystyfiant llaciau twyni. Y newid mawr arall i'r goedwig yw'r lleihad mawr yn nifer y coed conwydd a'r cynnydd mewn coetir twyni brodorol dros y 30 mlynedd nesaf. Bydd yr ardal sydd o dan orchudd coed conwydd yn gostwng gan oddeutu 170 hectar, sef o 550 hectar (82% o arwynebedd y goedwig) i oddeutu 380 hectar (62% o arwynebedd y goedwig). Bydd ardal y coetir twyni brodorol yn cynyddu gan oddeutu 105 hectar, sef o 125 hectar i 230 hectar (38% o arwynebedd y goedwig). Bydd y cynnydd mewn coetir twyni hefyd yn helpu i glustogi nodweddion o ddiddordeb a gwella'r hydroleg ger y twyni, sydd yn ei dro yn helpu i fodloni amodau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.**

**<u>Effeithiau newid hinsawdd / Cynllun Rheoli Traethlin</u>**

Nid yw eich cynlluniau yn ystyried dyfodol y maes parcio y bydd erydu arfordirol yn debygol o effeithio arno. Nid yw'n ymddangos eu bod yn ystyried y cynnydd yn lefel y môr a sut y bydd hyn yn effeithio ar yr ardaloedd arfordirol ar hyd y Fenai, y gwningar a llaciau'r twyni. Ymddengys nad oes unrhyw ystyriaeth nac astudiaethau i ddangos sut y gallai symudiad y tywod effeithio ar Niwbwrch a'r ardaloedd cyfagos os cynyddir llaciau'r twyni yn yr ardal – mae'r newid yn yr hinsawdd yn golygu ein bod bellach yn cael mwy o stormydd, ymchwyddiadau, a chyfnodau sychach nag yr oeddem yng nghanol y ganrif ddiwethaf, felly efallai na fydd yn fuddiol dychwelyd i'r gorffennol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae prosesau arfordirol gweithredol wedi arwain at erydu sylweddol ar y twyni, gan gynnwys o flaen y prif faes parcio. Nid oes unrhyw sôn yn y dogfennau a ddarparwyd ynghylch diogelu'r maes parcio at y dyfodol. Os bydd y twyni tywod yn parhau i gilio, efallai y bydd angen adleoli'r mannau parcio a'r coed ychydig ymhellach yn ôl o'r traeth. Efallai y bydd ardaloedd eraill o'r safle lle bydd y newid yn yr hinsawdd a/neu'r cynnydd yn lefel y môr yn effeithio ar y ffordd y caiff y safle ei reoli, a byddwn wedi disgwyl gweld hyn yn cael ei grybwyll.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at gynllun rheoli craidd yr ACA ac at Gynllun Pobl ond nid yw'n crybwyll y Cynllun Rheoli Traethlin ac nid oes tystiolaeth ei fod wedi cael sylw fel rhan o'r broses gynllunio.

Ffactor hollbwysig arall y mae'r Cynllun Rheoli Coedwig yn ei hesgeuluso yw'r cynnydd a ragwelir yn lefel y môr, sy'n bygwth y twyni blaen a'r twyni mewndirol ac, o ganlyniad, poblogaethau o herpetoffawna, yn enwedig madfall y tywod a'r fadfall fywesgorol sy'n defnyddio'r twyni blaen sy'n cynnwys gwellt moresg wedi'i wasgaru â thywod noeth, cynefin sy'n anghymesur o bwysig i fadfall y tywod.

I liniaru'r cynnydd yn lefel y môr, fe fydd yn hanfodol i'r twyni symud yn ôl er mwyn galluogi'r boblogaeth o fadfallod y tywod i barhau. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl lliniaru'r cynnydd yn lefel y môr oherwydd bod coed anfrodorol yn bresennol mewn mannau hyd at lan y môr.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gynefin blaendraeth a blaendwyn sydd ar gael mewn ardal sylweddol o Niwbwrch. Bydd yr effaith ar boblogaethau o ymlusgiaid yn nodedig os na roddir sylw i'r diffyg mewn cysylltedd.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o leoliadau amlwg i ymlusgiaid sy'n bosibl yn y twyni gan fod coed conwydd yn tyfu hyd at lan y môr. Heb gysylltedd digonol o ganlyniad i ymwthiad coetir ar gynefin twyni, mae cronfa enetig y boblogaeth o ymlusgiaid yn Niwbwrch yn siŵr o ddirywio, a bydd yn gwaethygu ymhellach oni bai bod y coetir yn cael ei leihau i *o leiaf* 200 metr tua'r tir o lan y môr fel bod mwy o olau ac er galluogi prosesau naturiol i adfer y cynefin twyni. Er mwyn adfer y cynefin twyni y mae mawr ei angen a lliniaru'r cynnydd a ragwelir yn lefel y môr, mae angen cyflawni llawer mwy o waith cwympo coed cyn i'r môr godi i'r lefel a ragwelir ac a nodir yn y Cynllun Rheoli

Coedwig. Byddai cychwyn ar y rhaglen cwympo coed hanfodol ymhen 10 mlynedd, fel y nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Rheoli Coedwig, yn llawer rhy hwyr.

Nid oes unrhyw sôn am y Cynllun Rheoli Traethlin sy'n nodi'r gofyniad rheoli ar gyfer 0 i 20, 20-50, a 50-100 mlynedd. Roedd y cynllun yn un o ofynion Llywodraeth Cymru ac mae'n ystyriaeth allweddol o ran rheoli'r arfordir.

Nid oes unrhyw sôn am y ffaith bod y cynnydd yn lefel y môr yn uwch na'r disgwyliadau ac y bydd yn cael effaith ddwys ar Niwbwrch.

Nid yw'r cynllun yn cyfeirio o gwbl at y Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT2) sy'n argymell symud y blanhigfa yn ôl er mwyn galluogi'r draethlin i addasu. Mae CRhT2 yn cael ei drechu'n gyflym gan ddigwyddiadau wrth i'r newid yn yr hinsawdd gyflymu, wrth i lefel y môr godi ac wrth i draethlinau ddod o dan fwy o bwysau. Nid yw'r blanhigfa yn darparu unrhyw "amddiffyniad" yn erbyn symudiad arfordirol o'r fath; mae coed yn cael eu tanseilio a'u taflu i'r tonnau, ond mae'n atal cynefinoedd a phrosesau arfordirol rhag adlinio'n drefnus.

**Ymateb CNC**

**Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer yr ardal yn gynllun 100 mlynedd hirdymor. Mae'n cynnig newid yn y dull y caiff yr arfordir ei rheoli, o amddiffyn ac ymyrryd i ddull sy'n caniatáu i'r ardal gyfan ymateb mewn ffordd fwy naturiol. Mae'n awgrymu y dylid ystyried ymaddasu fel ffordd o reoli Coedwig Niwbwrch er mwyn caniatáu i'r system dwyni ddatblygu'n naturiol dros yr hirdymor. Yn ymarferol, mae'n awgrymu cael gwared ar y goedwig er mwyn gadael lle i'r arfordir ymaddasu oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig newydd yn caniatáu i'r newid hwn ddigwydd. Mae'r weledigaeth hirdymor yn y Cynllun Adnoddau Coedwig yn weledigaeth 30 mlynedd a bydd yn cael ei hadolygu bob deng mlynedd. Gan fod y newidiadau hyn yn digwydd yn naturiol dros amser, bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i addasu i adlewyrchu'r newidiadau naturiol hyn. Dros amser, mae'n bosibl y bydd tywod yn cronni mewn rhai ardaloedd ac yn cilio mewn ardaloedd eraill wrth i'r arfordir esblygu ac ymaddasu i'r cynnydd yn lefel y môr. Mae cyfeiriad at y newid yn yr hinsawdd a'r newid yn lefel y môr wedi cael ei ychwanegu at yr amcanion.**

**Dull gwael ar y cyfan o reoli'r ardal yn gyffredinol y gorffennol, y presennol a'r dyfodol**

Mae'n ymddangos bod camreolaeth hanesyddol wedi achosi mintai o anffodion ecolegol yn yr ardal a fydd yn cymryd amser hir iawn i'w hunioni er mwyn dod â chydbwysedd yn ôl i'r ardal.

Dim ond 15,000 hectar (0.7%) o arwynebedd Cymru sydd o dan orchuddio tywod twyni, ond o'r arwynebedd hon dim ond 6,200 hectar sy'n goroesi fel cynefin lled-naturiol. Dylid rheoli systemau o'r fath mewn ffordd gyfannol oherwydd bod prosesau trawsgludo aeolaidd a hydroleg dŵr daear yn gweithredu ar draws yr uned dir gyfan. Mae torri rhan o'r system allan fel uned reoli yn mynd yn groes i'r dull cyfannol hwnnw.

Does dim sôn am warchod fflora a ffawna llai. Er enghraifft, mae gwaith cyfredol ar y twyni y tu ôl i Draeth Penrhos yn gwneud niwed i'r cynefin o ran gwenyn unig sy'n gaeafgysgu ar lethrau'r trac sy'n rhedeg rhwng y twyni a'r goedwig. Mae'r peiriannau trwm yn difa'r ardaloedd hyn ac, os bydd y gwaith yn parhau ymhellach ar hyd y llwybr tuag at aber Malltraeth, bydd y tegeirianau, sydd wedi cael sawl blwyddyn lwyddiannus yn ddiweddar, yn cael eu difa; digwyddodd hyn i degeirianau yn ddyfnach i'r goedwig yn ystod gwaith cwympo coed diweddar.

Mae'r cynllun yn cynnig "caniatáu i brosesau naturiol ddod yn amlycach ar draws y safle cyfan", ond yn absenoldeb cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r prosesau geomorffolegol dynamig sylfaenol mae'n mynd yn groes i'r amcan hwnnw mewn gwirionedd.

Mae'n bell o fod yn glir sut mae rheolaeth y blanhigfa yn dylanwadu ar ansawdd dŵr morol.

Mae'r cynlluniau drafft a ddangoswyd ynghylch ffin y goedwig yr un fath â'r cynlluniau a gyflwynwyd flynyddoedd yn ôl pan fu protestio enfawr yn erbyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith.

Cyn i unrhyw waith cwympo coed ddigwydd, roedd llain gysgodi i fod i gael ei phlannu. Roedd hyn er mwyn amddiffyn y coed iach bregus â gwreiddiau bas y tu cefni'r gwaith cwympo arfaethedig rhag iddynt gwympo fel sgitls yn ystod y gwyntoedd cryfion cyffredin oddi ar y môr. Hyd y gwn i, nid yw hyn wedi'i wneud.

Bu methiant i blannu glasbrennau newydd o dan glystyrau o goed pinwydd aeddfed, yr oedd rhai ohonynt wedi cael eu teneuo llawer gormod. Bu methiant hefyd i reoli tyfiant chwyn, ac o ganlyniad mae'r coed hŷn a deneuwyd yn ormodol a choed ifanc wedi cael eu mygu.

….yr hyn chyflwynir fel cynllun rheoli adnoddau coedwig safle fel Niwbwrch am y 10 mlynedd a thua'r dyfodol yn peri gofid mawr i mi. Yn fy marn i o gynllun rheoli coedwig hollol ddi feddwl ac heb lawn ystyried goblygiadau yr hyn a welwn fel diffyg rheolaeth neu rheolaeth amrhiodol o'r goedwig a'i effaith ar nodweddion holl bwysig a phrin.

Nodir yn eich pecyn ymgynghori fod hwn yn ychwanegiad bwysig o fewn cynllun rheolaeth craidd Niwbwrch. Credaf dylsa rheolaeth o'r goedwig fel adnodd yn ei hun fod yn isel iawn ar y rhestr blaenoriaethau CNC a dylsai fwy o ystyrriaeth cael ei roi i warchod ag ehangu Bioamrywiaeth, diwylliant a threftadaeth yr ardal a'r daeareg anhygoel sy'n bresenol yma. Trwy ffocysu yn ormodol ar rheolaeth y goedlan at fudd economaidd, thwristiaeth ag hamdden, mae gwir beryg byddwn yn colli prif ddiddordebau'r safle o fewn y 10 – 20 mlynedd nesaf.

Mae'r darpar gynllun hefyd yn groes i bolisi ac amcanion Uk Forestry standards a safonau FSC Mewn perthynas a'r ddogfen CYNLLUN ADNODDAU COEDWIG NIWBWRCH - BLAENORIAETHAU AC AMCANION! Mae'r amcanion yn y ddogfen ysgrifennedig yma yn wallus ac yn hollol groes i'w gilydd. NI all prosesau naturiol arfordirol barhau a ehangu ochr yn ochr a amcanion coedtirroedd. Tydy mapiau atodi'r fel rhan o'r broses ymgynghori yma DDIM yn cyfleu neu yn adlewyrchu fy ddehongliad I o'ch amcanion a blaenoriaethau ar gyfer Niwbwrch. Rydych yn gwerthu'r feddylfryd perffaith i mi ond mae'r mapiau yn cyfleu pethe tor calonus i ddeud y lleiaf. Awgrymaf fod parhau gyda'r darpar gynllun yn dor-cyfraith ar ran CNC.

Rydym wedi ein siomi gan y tyllau mawr a gloddiwyd yn y twyni tywod y naill ochr i sarn Ynys Llanddwyn. Yn benodol mae'r tywod wedi cael ei bentyrru ar y trac sy'n rhedeg y tu cefn i'r twyni ac mae hyn wedi difetha'r llwybr gwych hwn drwy rwystro'r rhan olaf ohono sy'n arwain tuag at y prif faes parcio.

Mae Twyni Bywyd yn ymddangos i mi fel 'camenw' gan fod sawl trac a llwybr wedi'u gorchuddio'n llwyr gan dywod. Yn y mannau lle bu llawer o flodau gwyllt yn y gorffennol, ee tegeirianau pyramid, maent bellach wedi marw neu wedi diflannu.

**Ymateb CNC**

**Mae'r ffaith bod nifer o wahanol agweddau ar reolaeth wedi'u rhestru uchod yn dangos amrywiaeth y safbwyntiau, a'r safbwyntiau croes ynghylch y ffordd y mae'r safle wedi cael ei reoli yn y gorffennol, sut mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd asut y caiff ei reoli yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn gynllun strategol sy'n llywio rheolaeth i gyfeiriad penodol ac yn caniatáu i gynigion manwl ac agweddau ar reoli gael eu datblygu ymhellach. Mae'r rhain wedi bodoli ar wahanol ffurfiau, megis y prosiect 'Twyni Byw' a gafodd ei lywio yn y gorffennol gan y Cynllun Coedwig strategol. Cyhyd ag y bo'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, ac mae'n gwneud hynny, gall bellach fod yn sail i benderfyniadau yn y dyfodol a chynlluniau manylach. Mae dull manwl o reoli cadwraeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer y safle, a bydd hwn hefyd yn cael ei rannu maes o law.**

**Rhywogaethau coed**

Mae diffyg manylion yn y cynllun, yn enwedig o ran cyfansoddiad y rhywogaethau yn y coetir arfaethedig. Mae defnyddio coed ffawydd yn amhriodol – gall ddod yn ymledol iawn o dan rai amgylchiadau. Nid yw'r term "mwy o fathau o goed llydanddail a choed brodorol", er enghraifft, yn eithrio'r defnydd o goed llydanddail anfrodorol (fel ffawydd deheuol) yn ogystal â choed brodorol.

Mae'r cynllun yn sôn am goetir brodorol – yn y gorffennol bu hyn yn ffordd o ddisgrifio rhywogaethau arloesol fel coed bedw a choed helyg. Mae'r rhain yn amlwg iawn ymhlith isdyfiant y goedwig bellach – mae'r cynllun yn awgrymu bod hyn oherwydd newid naturiol ond mae hyn yn anwybyddu methiant CNC i blannu mathau eraill o goed nad oes ffynonellau o hadau ar gael ar eu cyfer, neu y mae'r ffynonellau o hadau ar eu cyfer yn gyfyngedig. Mae'r wiwer goch yn byw mewn coetiroedd uchel sydd â chymysgedd cyfoethog ac amrywiol o rywogaethau coed. Os yw CNC am gefnogi gwiwerod coch, pam eu bod mor amharod i restru'r cymysgedd a sut y gellir sicrhau y bydd planhigion newydd yn goroesi? Mae'r term coedwigaeth Saesneg 'beating up' yn cyfeirio at yr arfer o fonitro goroesiad coed ifanc bob 3-5 mlynedd a phlannu coed newydd yn lle'r rhai sydd wedi marw. Nid yw hyn yn digwydd yn Niwbwrch.

Yn y cynllun cynigir cael 'coetir brodorol' (unwaith eto, fel uchod, nid yw wedi'i ddiffinio'n ddigon clir o ran rhywogaethau) yn lle'r clystyrau o goed pinwydd presennol sy'n gyfagos i'r gwningar. Nid oes angen gwneud hyn. Nid oes unrhyw ddata hydrolegol, na thystiolaeth, bod y goedwig yn lleihau lefelau trwythiad yn yr ardal agored.

Nid yw CNC wedi bod yn monitro'r boblogaeth o wiwerod dros y blynyddoedd, felly nid oes modd iddynt wybod pa rywogaethau addas o goed sydd eu hangen mewn coetir cymysg, na faint ohonynt.

Nid yw'r cynllun yn sôn o gwbl am werth cymharol cynefin yn y dyfodol i'r wiwer goch. Os bosibl y dylai hyn chwarae rhan fawr yn y broses o ddylunio cynefin sy'n addas ar gyfer y creaduriaid hyn a llawer o greaduriaid eraill, ac os yw Cyfoeth Naturiol Cymru o ddifrif am warchod y wiwer goch frodorol hynod bwysig dylent gymryd diddordeb go iawn yng nghynefin yr anifail cynhenid hwn er mwyn sicrhau ei fod yn goroesi a bod ei niferoedd yn cynyddu yn ei niferoedd, ond prin fu'r diddordeb hwn dros y blynyddoedd yn anffodus. AC os ydynt am gefnogi gwiwerod coch, pam maen nhw mor dawel ynglŷn â rhestru'r cymysgedd a sut y sicrheir bod planhigion newydd yn goroesi, gan nad yw'n ymddangos bod yr arfer o fonitro goroesiad coed ifanc a rhoi rhai newydd yn eu lle pan fo angen yn digwydd o gwbl yn Niwbwrch.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod nodweddion amwynder a hamdden y goedwig hon yn cael eu cynnal tra'n gofalu am y rhywogaethau coetir amrywiol a'r bywyd gwyllt ochr yn ochr â chynllun manwl o'r rhywogaethau coed sydd i'w plannu i greu coetir cymysg i gynnal y gwiwerod coch sydd mewn perygl, gan sicrhau bod cysylltedd yn cael ei gynnal ym mhob rhan o'r goedwig. Mae angen cynnal gwiriadau ar iechyd glasbrennau ifanc, plannu rhai newydd yn eu lle pan fo angen a sefydlu trefn blannu er mwyn sicrhau iechyd y goedwig yn y dyfodol.

Ni ddylid amodi'r lle i wiwerod cochion – Ffawydd ? *Mewn perthynas a - Arallgyfeirio cyfansoddiad rhywogaethau'r goedwig trwy hyrwyddo strategaeth ailstocio mwy amrywiol, a fydd yn cynnwys mwy o amrywiaethau o goed dail llydan a choed brodorol yn ogystal â chonwydd cynhyrchiol. Mae pinwydd yr Alban, rhai rhywogaethau ffynidwydd, cyll a ffawydd hefyd yn addas ar gyfer darparu bwyd gwiwerod coch.*

Ar bob cyfrif gyhyd ag nad ydyw yn amodi gwir natur y safle, ond nid yw'r goedwig yn blanhigion brodorol na phrin fawr ddim coetir nid oes gofyn pob rhywogaeth fodorol dim ond y rhai fyddai'n naturiol symud yno. *Mewn perthynas a - Gwella gwerth y goedwig yn weledol ac i'r synhwyrau a gwerth tirwedd cynefinoedd drwy gynyddu planhigion brodorol a sicrhau amrywiaeth yn y coetir.*

**Ymateb CNC**

**Fel y soniwyd uchod, mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn ddogfen strategol sy'n nodi'r categorïau ehangach o fathau o goetir ar gyfer y dyfodol. Gall coetir sy'n cynnwys coed llydanddail yn bennaf fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol a lled-frodorol ac anfrodorol. O ran Niwbwrch, mae'r amcanion yn ffafrio cael coetir brodorol, ond nid yw hyn yn golygu mai dyna oll fydd yno oherwydd gall coed llydanddail lled-frodorol ffynnu hefyd, yn enwedig pan maent wedi'u cymysgu ymhlith yr ardaloedd o goed conwydd y nodwyd eu bod yn helpu i gynnal strwythur y goedwig ar gyfer gwiwerod coch. Mewn ardaloedd eraill, megis coetir twyni, efallai y bydd llai o rywogaethau lled-frodorol mewn mannau lle gall hynny fod yn fuddiol i rywogaethau a chynefinoedd eraill. Bydd cyfansoddiad manwl y rhywogaethau yn cael ei ddatblygu yn y cynllun rheoli cadwraeth er mwyn darparu ar gyfer yr holl gynefinoedd a rhywogaethau yn ardal y goedwig.**

**Yn erbyn rheoli'r wiwer goch**

Mae'r defnydd o'r term "gwarchodfa naturiol" yn rhyfedd. Mae rhai o'r ardaloedd sydd wedi'u cynnig ar gyfer y rôl hon yn blanhigfeydd conwydd yn bennaf. Os yw hyn wedi'i ysgogi gan fesurau i reoli'r wiwer goch yna mae'r amcan hwnnw eisoes wedi'i gwmpasu gan yr ymrwymiad i gadw coed conwydd a chynnal cysylltedd ac ati, er bod yr angen i gadw coed conwydd mewn amgylchedd heb wiwerod llwyd yn ddadleuol iawn.

Mae pedwar cyfeiriad at y boblogaeth o wiwerod coch a gyflwynwyd. Nid oes unrhyw gyfeiriad at y boblogaeth o fadfallod y tywod a gyflwynwyd (sy'n Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop) ac ni roddwyd unrhyw sylw i'w gofynion ecolegol.

Rwdls yw hyn. Ni ddylid bod wedi cyflwyno gwiwierod coch yma. Twyni tywod sydd i fod yma. Pam nad ystyriwyd cael mwy o fambŵ yma a chyflwyno'r panda yma ? *Mewn perthynas a Cynnal ecosystem goedwig amrywiol a pharhaol sy'n cynnwys coetir conwydd cymysg a choetir brodorol, sy'n addas fel cynefin i'r wiwerod coch (rhestr goch a rhywogaethau Cynllun Gweithredu ar*

*Fioamrywiaeth y DU), gyda choetir mwy olynol, llennyrch a chynefinoedd agored ar hyd ffyrdd a rhodfeydd coedwigol.*

**Ymateb CNC**

**Mae'r wiwer goch yn rhywogaeth sydd o dan fygythiad ac sydd ar y rhestr goch yn y DU, ac mae Ynys Môn yn ardal warchodedig ac yn hafan ddiogel iddynt yng Nghymru. Roedd coedwig Niwbwrch yn un o'r ardaloedd a oedd yn addas ar gyfer ei hailgyflwyno gan fod yno ardal helaeth o goetir, a hynny ar ynys y mae ychydig iawn ohoni o dan orchudd coetir addas. Maent wedi sefydlu poblogaethau yng nghoedwig Niwbwrch a dyna pam mae angen rheoli'r coetir er mwyn galluogi gwiwerod coch i ffynnu yno. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn dangos y bydd newid graddol tuag at fwy o goetir llydanddail ar ochr y lan tra'n ceisio cynnal coedwig gonifferaidd gymysg ymhellach i mewn i'r tir. Dylai hyn alluogi'r wiwer goch i barhau i ffynnu yno wrth hefyd ddarparu ar gyfer cadwraeth cynefinoedd twyni tywod.**

**Rheoli dŵr yn wael/hydroleg wael**

Mae'r cyrsiau dŵr yn y goedwig wedi cael eu difrodi dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r difrod yn effeithio ar lawer o anifeiliaid (a phlanhigion) y goedwig o ganlyniad. Nid yw pob "ffos" goedwig yn ffos gyffredin – maent yn nentydd hynafol, roeddent yn arfer cael eu cynnal, ond maent wedi'u rhwystro, wedi'u tagu, ac yn llonydd bellach. Maent yn haeddu cael eu cynnwys yn benodol yn y cynllun.

Mae'r coedlannau yn cael effaith sylweddol ar gyflenwadau dwr naturiol twynni o'i fath ac welai ddim awgrym o sut i ddiogelu cyflewnadau neu rhwystro sychder yn y dyfodol.

Nawr am y gwaith cwympo coed arfaethedig ger y gwningar. Mae hyn eto yn rhan o hen gynllun sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar ôl blynyddoedd o gael ei roi o'r neilltu. Dwi'n methu â deall pam mae angen llwyrgwympo'r fath ddarn o goedwig gan mai arbrawf hydrolegol oedd hwn. Ychydig flynyddoedd yn ôl cafodd 'padog' un hectar ei glirio i'r diben hwn er mwyn mesur yr effaith ar y lefel trwythiad o dan y twyni ger y goedwig. Mae peth amser wedi mynd heibio ac nid oes unrhyw ddata wedi dod i'r amlwg, a chan fod profion hydrolegol yn cael eu cynnal yn rheolaidd mewn gwahanol leoliadau mae'n ymddangos yn amlwg NAD YW'r goedwig yn cael effaith andwyol ar y twyni yn gyffredinol nac ar laciau'r twyni, felly ni ddylai fod angen llwyrgwympo rhagor o goed yn yr ardal hon.

Mae presenoldeb parhaus planhigfeydd a choetir helaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfanrwydd y system hydrolegol.

**Ymateb CNC**

**Mae CNC yn parhau i fonitro'r lefelau dŵr daear yn Niwbwrch. Defnyddir y data i ddeall ymhellach unrhyw effaith y mae'r goedwig yn ei chael ar y twyni tywod ac i lywio adolygiadau o'r Cynllun Adnoddau Coedwig hwn yn y dyfodol. Yn y cyfamser, bydd y cynllun newydd yn caniatáu ar gyfer rheoli'r goedwig sy'n gyfagos i'r gwningar er mwyn ffafrio coed llydanddail. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw effeithiau posibl y mae'r coed yn eu cael ar hydroleg y safle. Mae dulliau rheoli coedwigoedd diweddar eraill fel y gwaith 'Twyni Byw' wedi helpu i agor rhai o'r cyrsiau dŵr hŷn ar draws y goedwig.**

**Diffyg manylion yn y cynllun**

Yn y bôn, mae cadwraeth y wiwer goch yn ymwneud â chyfansoddiad a strwythur cynefinoedd. Hynny yw, pa rywogaethau o goed sy'n bresennol ac a yw'r coed o faint a fydd yn darparu coridorau coed a safleoedd nythu. Er mwyn rhagweld pa mor ffafriol i wiwerod fydd coedwig, mae'n arferol cynnwys gwybodaeth sylfaenol mewn cynlluniau. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys disgrifiad manwl gywir o'r rhywogaethau o lasbrennau sydd i'w defnyddio mewn cynlluniau plannu newydd, a chyfran pob rhywogaeth. Nid yw'r cynllun yn darparu'r wybodaeth hon.

Nid yw parthau lliw 'coed conwydd' a dosbarthiadau cynefin eraill yn darparu gwybodaeth am y rhywogaethau a'r cymysgedd yr anelir ato. Nid yw'n dderbyniol bod heb ddata sylfaenol oherwydd hebddynt ni ellir gosod targed penodol i fesur llwyddiant yn ei erbyn.

Y manylion sydd bob amser yn bwysig ac mae diffyg gwybodaeth allweddol yn y cynllun hwn. Nid oes unrhyw sôn ynddo ychwaith am werth cymharol cynefin yn y dyfodol i'r wiwer goch. Gallai coetir brodorol olygu coetir sy'n llawn coed bedw a choed helyg nad ydynt yn darparu unrhyw fwyd o gwbl i wiwerod, neu gallai'r un diffiniad o gynefin olygu coetir sy'n cynnwys coed castanwydd pêr, coed ffawydd, coed cyll a choed ceirios gyda 49% o goed pinwydd yr Alban. Yn yr un modd gallai ardaloedd a ddiffinnir fel coed conwydd masnachol gynnwys hyd at 49% o goed bedw. Dylai'r cynlluniau fod yn benodol ac nid yn amwys.

*'Adfer a chynnal cynefinoedd drwy fesurau rheoli coetir priodol fel eu bod yn cynnal nodweddion ACA/SoDdGA eraill o ddiddordeb yn y goedwig. Mae'r rhain yn cynnwys tafolen y traeth, y gelen feddyginiaethol, y fadfall ddŵr gribog, a chlwydfannau'r gigfran.'* – Unwaith eto, mae'r amcan yn gymeradwy ond nid yw'r mapiau'n ei gefnogi ac nid oes digon o wybodaeth i farnu maint na manylion y cynigion. Nid oes unrhyw wybodaeth reoli wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, felly mae'n amhosibl barnu a yw rheolaeth cynefinoedd agored, mewn gwirionedd, yn rheolaeth briodol neu a yw maint yr ardaloedd o amgylch lleoliadau rhywogaethau yn ddigonol.

**Ymateb CNC**

**Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn gynllun strategol sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol i'r ffordd y rheolir y goedwig dros yr hirdymor. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu datblygu yn y cynllun rheoli cadwraeth, a fydd yn ymdrin â phob cynefin a rhywogaeth unigol a sut y cânt eu rheoli orau er mwyn cyflawni statws cadwraeth da.**

**Gormod o ymwelwyr**

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn frwydr gyson gyda nifer yr ymwelwyr a'r gweithgareddau niweidiol y maent yn cymryd rhan ynddynt weithiau.

Rwyf yn bryderus ynghylch nifer yr ymwelwyr ag ynys Llanddwyn a'r effaith y maent yn ei chael, a'r ffordd o reoli hynny.

**Ymateb CNC**

**Mae pobl wedi ymweld â'r ardal erioed, ac mae bob amser wedi bod yn safle prysur iawn. Mae 'Cynllun Pobl' yn cael ei ddatblygu er mwyn helpu i reoli'r safle o safbwynt ymwelwyr a'r gymuned leol, a fydd yn lleihau'r pwysau ar y goedwig, yr ardaloedd cyfagos, y cymunedau a'r cynefinoedd. Bydd y tri chynllun, sef y Cynllun Adnoddau Coedwig, y Cynllun Pobl a'r Cynllun Rheoli Cadwraeth**

**yn ategu ei gilydd ac yn helpu i gydbwyso'r blaenoriaethau rhwng y goedwig, pobl a bioamrywiaeth.**

**Mynediad i'r goedwig a hamdden**

Nid wyf yn siŵr beth yw pwynt yr ymgynghoriad pan fo penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud a bo camau gweithredu i gyflawni'r cynllun hwn eisoes ar y gweill. Ar hyn o bryd, mae darnau o'r goedwig a'r perimedr wedi'u ffensio a'u clirio er mwyn rhoi'r ardaloedd mwy agored a'r pyllau a ddiffinnir yn eich cynllun ar waith. Rwy'n sylweddoli, tra bo'r cynefinoedd ar gyfer madfallod, brogaod a phlanhigion yn yr ardaloedd hyn yn sefydlu, ei bod yn bosibl y bydd angen codi ffensys o'u cwmpas, ond rwy'n gobeithio nad yw hwn yn ateb hirdymor. Mae'n wir eu bod efallai'n cynnwys rhywogaethau a warchodir ac efallai bod ardaloedd o ddŵr dwfn ynddynt, ond dylid blaenoriaethu addysgu ac nid cyfyngu. Mae codi ffensys yn golygu na fydd pobl byth yn dysgu am yr ardaloedd hyn ac mae hefyd yn cyfyngu ar ein hawl gyfreithiol i grwydro.

**Ymateb CNC**

**Mae mynediad agored a'r hawl i grwydro yn parhau yng nghoedwig Niwbwrch fel rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mewn mannau lle mae pori'n digwydd a mannau sydd wedi'u cau dros dro oherwydd gwaith, yn enwedig ar lwybrau a ffyrdd, mae'n bosibl y bydd yn teimlo fel pe bai ardaloedd ehangach yn cael eu cyfyngu er y gallai'r rhain fod yn drefniadau dros dro neu'n gaeau ar gyfer pori yn unig. Mae gan unrhyw ardal bori sydd â ffensys o'i hamgylch a llwybr giatiau i ganiatáu mynediad neu lwybrau o'i chwmpas pan nad yw hynny'n ymarferol.**

**Dim digon o gyfleusterau**

Nid oes digon o le i barcio na chyfleusterau i'r miloedd o bobl sy'n talu i ymweld â'r llecyn hardd hwn. Mae arnaf ofn meddwl beth allai ddigwydd pe bai tân coedwig neu ddamwain sgïo jet difrifol … sut all y gwasanaethau brys wasgu heibio i'r holl gerbydau sy'n mynd i mewn ac allan ar ffordd un lôn! Nid oes unrhyw fannau cymorth cyntaf brys, mannau ymladd tân, pyst dŵr yfed, na gwasanaeth achubwyr bywyd.

**Ymateb CNC**

**Mae'r safle (fel sy'n wir am lawer o fannau poblogaidd i dwristiaid yn y DU) wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymwelwyr ers cyfnodau'r cyfyngiadau symud yn sgil Covid. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio rheoli niferoedd, ond ein bwriad yw cyfrifo pa niferoedd y gall y safle eu cynnal cyn y bydd yn niweidiol i fywyd gwyllt, neu i fwynhad pobl. Mae hyn yn ei dro yn dylanwadu ar ein gwaith ar ddatblygu Cynllun Pobl a fydd yn ein helpu i reoli ymddygiadau yn ogystal â niferoedd. Mae cynlluniau brys a phrotocolau cytunedig gyda'r holl wasanaethau brys. Mae'n gydbwysedd cymhleth rhwng bod allan mewn amgylchedd naturiol a chefnogi anghenion ymwelwyr.**

**Archaeoleg**

Siomedig iawn na chlustnodir mannau hanesyddol a thorri a llnau o'u cwmpas. Yn arbennig Tir Forgan gan ei fod yn safle o werth cenedlaethol i ni'r Cymry.

**Ymateb CNC**

**Mae yna nifer o safleoedd o amgylch coedwig Niwbwrch lle mae olion gwaith clirio yn amlwg a mannau mwy agored o'u cwmpas. Mae Tir Forgan heb ei ddynodi ond mae'r ardal sydd ar hyn o bryd yn lled-agored yn cael ei hymestyn fel ei bod yn cynnwys ardal o amgylch yr adeilad yn y cynllun newydd. Mae prif swyddogaethau CNC ar y safle yn ymwneud â bywyd gwyllt, pobl a phren. Ar adegau pan fo adnoddau'n brin, ni allwn ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â nodweddion eraill o ddiddordeb. Rydym yn ceisio gweithio gyda phartneriaid sydd â'r adnoddau i ymdrin â safleoedd hanesyddol ond yn anffodus nid oes ganddynt yr arian i'w cadw i gyd yn glir.**

**Sylwadau cyffredinol eraill – iaith aneglur wael**

Mae peth o'r geiriad yn wlanog iawn a dydw i ddim yn deall beth mae'n ei olygu.

Ysgrifennwch mewn iaith fwy syml, llai gwlanog, sy'n golygu rhywbeth mesuradwy go iawn neu bendant (i bobl gyffredin, nid i weision sifil …ee beth yw ystyr "bod yn gymydog da"? Beth yw gweithio mewn ffordd "gyd-gynhyrchiol"? Beth yw "cysylltiadau teithio strategol"?

Prif nod y cynllun yw twyni tywod. Dyna'r prif darged. Mae'n sôn am gynefinoedd allweddol: 'Mae'r rhain yn cynnwys egin-dwyni, twyni symudol a thwyni sefydlog, twyni gyda *Salix repens* a chynefinoedd llaciau twyni llaith.' Yna mae'n nodi, 'Gall hyn olygu tynnu coed conwydd o nodweddion o ddiddordeb a'r ardaloedd cyfagos a chreu mwy o le i'r system twyni tywod newid dros amser'. Beth mae 'gall' yn ei olygu? Mae'n iaith lac, niwlog ac yn amlwg yn hwyluso bron unrhyw beth a phopeth. Rydym eisoes wedi gweld llawer o'r goedwig yn cael ei chlirio o ardaloedd creigiog, a hynny, mae'n debyg, er mwyn gwneud y ffurfiannau yn fwy gweladwy. Er hynny, tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2010-2020, ni chynhaliwyd yr un arolwg o boblogaeth y wiwer goch.

Mae hwn yn llawn o wynt. *Mewn perthynas a - Parhau i ddarparu mynediad i'r lleoliad unigryw hwn ar gyfer addysg ac amrywiaeth o waith ymchwil. Gweithio gyda grwpiau ymchwil a phartneriaid eraill i ddarparu tystiolaeth bellach ar gyfer parhau i reoli'r goedwig a'i holl ecosystemau yn gynaliadwy.*

**Ymateb CNC**

**Mae'r amcanion yn aml yn eang ac yn berthnasol i lawer o safleoedd ar draws y goedwig. Maent yn ceisio cyfleu, cyhyd ag y bo modd, grynodeb o sut y bydd y goedwig yn cael ei rheoli yn y dyfodol a chyfeiriad strategol. Fel y nodwyd mewn llawer o'r sylwadau yn yr ymgynghoriad, y manylion sy'n bwysig, ac nid ydynt bob amser yn cael ei nodi'n llawn yn y math hwn o gynllun. Felly, bydd amrywiaeth o atebion bob amser er mwyn cyflawni canlyniadau dymunol y cynllun, a bydd y cynllun yn addasu yn y dyfodol yn sgil tystiolaeth newydd a ddaw i'r amlwg.**

## Cwestiynau a godwyd gan yr ymgynghoriad (atebion CNC mewn coch):

Rwy’n ansicr o’r hyn y mae CNC yn ei olygu yn yr NFPlan gan systemau coedamaeth. Beth yn union yw’r bwriad ar gyfer yr ardaloedd hyn? Byddwn yn gwerthfawrogi esboniad manylach. Hoffwn hefyd gael esboniad o beth yn union y mae CNC yn cyfeirio ato wrth ddisgrifio ardaloedd o goed llydanddail. Hoffwn gael esboniad yn yr ymateb i’m cwestiynau am goedamaeth a choed llydanddail gan y byddent yn effeithio ar Niwbwrch.
Ystyr systemau coedamaeth mewn perthynas â ‘systemau coedamaeth effaith isel’ yw ffordd o reoli clystyrau o goed drwy eu teneuo neu gwympo coed mewn grwpiau bach a chaniatáu i goed newydd dyfu o dan y canopi presennol neu mewn mannau agored bach. Mae hyn yn golygu na fyddant yn cael eu llwyrgwympo. Fel arfer bydd gorchudd di-dor o goed ar y safle. Mae coed llydanddail yn cyfeirio’n bennaf at goed sy’n frodorol i’r wlad hon yn bennaf, megis coed derw, coed bedw a choed helyg, sy’n colli dail gwastad, nad ydynt yn goed conwydd sydd â nodwyddau megis coed pinwydd.

O ran y gwaith cwympo arfaethedig i’r dwyrain yn gyfagos i Allt y Rhedyn a Thyddyn Plwm – a allwn ni gael cyfarfod safle i drafod y cynlluniau? Pa ystyriaeth a roddwyd i’r eiddo cyfagos, yn enwedig mewn perthynas â’u hamddiffyn rhag y prifwyntoedd, a hefyd o ran amddiffyn rhywogaethau brodorol, yn enwedig ystlumod (pa arolygon effaith sydd wedi’u cynnal)?
Trefnwyd cyfarfod a chafodd yr ardal o dan sylw ei thrafod a’i diwygio er mwyn sicrhau’r amddiffyniad mwyaf posibl rhag y prifwyntoedd wrth barhau i reoli’r goedwig. Asesir yr holl lennyrch cwympo coed i weld a ydynt yn effeithio ar fywyd gwyllt cyn cyflawni’r gwaith cwympo er mwyn lleihau unrhyw effeithiau.

Os gwneir cynigion i wella’r system dwyni a symud tywod, pa fodelau ansawdd aer a modelau mudo tywod sydd wedi’u cynnal i bennu’r effaith? Beth yw cynigion CNC ar gyfer monitro mudo tywod, yn enwedig o ystyried y rhagwelir y bydd stormydd yn mynd yn gryfach ac yn digwydd yn amlach. Pa ystyriaeth sy’n cael ei rhoi i eiddo cyfagos?
Mae mudo tywod wedi bod yn nodwedd o’r system twyni tywod ar y blaendraeth erioed. Ymhellach yn ôl yn y system mae’r twyni’n sefydlog ac mae yna hefyd orchudd coetir sy’n cynnig cysgod ychwanegol rhag y prifwyntoedd, ac felly rhagwelir mai bach iawn o dywod fydd yn mudo, os o gwbl, a fyddai’n effeithio ar eiddo sydd bron i ddau gilomedr o’r lan ac y tu cefn i’r goedwig. Mae mudo tywod wedi’i gofnodi gan astudiaethau amrywiol sydd wedi cynnig rhagfynegiadau o effaith y newid yn yr hinsawdd ar y blaendraeth lle mae mudo tywod yn digwydd. Bydd rhai ardaloedd yn cronni tywod a bydd ardaloedd eraill yn colli tywod. Mae’r cynllun yn caniatáu ar gyfer symudiad mwy naturiol o dywod ar hyd y blaendraeth.

Beth yw ystyr hyn ? *Mewn perthynas a - Bod yn gymydog da.*

Rydych yn sôn am CNC fel cymydog da. Mae hwn yn ddatganiad goddefol iawn a hoffwn archwilio beth mae hyn yn ei olygu i ni fel cymdogion.
Datblygodd yr ymadrodd o rywfaint o ymgysylltu â’r gymuned ac mae CNC wedi ymdrechu i fod yn gymydog da ers hynny. Mae bod yn gymydog da yn golygu gwrando, cyfathrebu, a chysylltu â busnesau a phobl leol sy’n byw yn y goedwig ac o’i chwmpas ynghylch rheolaeth y goedwig a’r gwningar. Nid yw cymdogion byth yn berffaith, ond y gobaith yw, drwy fod yn agored a thryloyw, y gallwn rannu’r rhan hon o’r dirwedd gyda’n gilydd mewn ffordd well.

A oes cyfleoedd i ni gydweithio i greu coridorau bywyd gwyllt a gwella cynefinoedd? Efallai y gallem gynnwys hyn yn ein cyfarfod safle.
Oes. Croesewir cyfleoedd os ydynt yn darparu buddion ychwanegol i fywyd gwyllt.

Fe wnaethoch chi glirio rhan o'r goedwig, unwaith eto ar yr ymylon dwyreiniol a chodi ffensys o'i amgylch. Beth oedd pwrpas hyn?
Cliriwyd yr ardal hon yn 2016 fel rhan o arbrawf hydrolegol i ddarganfod effeithiau posibl y goedwig ar lystyfiant rhestredig y gwningar. Mae hwn yn arbrawf parhaus ac mae data yn dal i gael eu casglu. Bydd rhan o'r ardal yn cael ei dychwelyd ar ffurf coetir twyni brodorol a chaiff rhan ei gadael i ddatblygu'n naturiol ar ffurf clytwaith o brysgwydd twyni maes o law.

Pam fod cymaint o'r goedwig yn cael ei chau i ffwrdd â ffensys?
Mae hyn oherwydd rheolaeth y cynefin agored sy'n cael ei chynnal gan yr anifeiliaid sy'n pori.

A oes cysylltiad rhyngoch chi â phrosiect Menter Môn, Glasffordd Môn, sydd â llwybr cerdded ar draws Ynys Môn sy'n cychwyn/gorffen yn Niwbwrch ac yn mynd yr holl ffordd i Amlwch?
Oes. Mae hyn ar y gweill.

Beth mae CNC yn ei gyfrannu i'r gymuned leol o'r refeniw a godir gan y maes parcio?
Ar hyn o bryd, mae'r hyn y mae CNC yn ei wario ar reoli'r safle yn llawer mwy na'r refeniw o feysydd parcio. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein strategaeth brisio a'n strategaeth reoli a byddwn yn gweithio gydag eraill i ystyried rhywfaint o fudd uniongyrchol i'r gymuned.

Hyd y gwn i, nid oes angen i goetir fod yn bresennol er mwyn i dafolen y traeth, y gelen feddyginiaethol a'r fadfall ddŵr gribog ffynnu. A ydych yn golygu y byddwch yn cael gwared ar fwy o goed er mwyn creu rhagor o walau a phyllau gyda mwy o borfeydd er mwyn cynnal yr organebau hyn sy'n brin yn genedlaethol?
Y syniad yw gwella'r cynefinoedd hyn drwy dynnu rhywfaint o goed a rheoli drwy bori. Yn achos y fadfall ddŵr gribog, nid oes angen cael gwared ar goed ym mhob achos ond fe allai wella lefelau golau a chynefinau torlannol o amgylch pyllau.

Rwy'n cydnabod bod angen clwydfan ar gigfrain, ond mae angen cyflenwad bwyd arnynt hefyd. Er mwyn i'r gytref ehangu bydd angen bwyd ychwanegol arnynt. Gan ystyried bod deddfwriaeth bresennol yn dal i ddatgan bod yn rhaid symud pob anifail sydd wedi marw oddi ar y tir a chael gwared arno cyn gynted â phosibl, o ble fydd y ffynhonnell fwyd ychwanegol hon yn dod? Mae dadlau ffyrnig yn mynd rhagddo hefyd rhwng sefydliadau fel yr RSPB a ffermwyr ynglŷn â saethu cigfrain er mwyn gwarchod da byw. Os ydym am annog twf yn y boblogaeth yn awr, a ydym yn mynd i weld cynnydd yn y da byw a gollir mewn ffermydd lleol a mwy o gefnogaeth i'r drwydded gyffredinol ar gyfer rheoli angheuol?
Bydd cigfrain yn dod o hyd i ffynonellau o fwyd naturiol a chaiff y gytref bresennol ei chynnal gan y ffynonellau hyn. Yr amcan pwysig yw cynnal yn hytrach na chynyddu maint y gytref a pheidio â'i dinistrio drwy reoli'r goedwig yn wael.

Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol – rwyf wedi sylwi ar nifer o blanhigion iwca yno hefyd. Nid oedd yn ymddangos eu bod wedi'u gwasgaru ar hap. A gawson nhw eu plannu'n fwriadol? A fyddwch chi'n cael gwared ar y rhain hefyd gan nad ydynt o unrhyw werth cynhenid i fioamrywiaeth yr ardal? A ydych chi'n dosbarthu unrhyw un o'r coed conwydd yn rhywogaethau estron goresgynnol? A barnu yn ôl nifer yr eginblanhigion ym mhobman, mae'n ymddangos eu bod yn creu problem.
Yn gyffredinol, nid yw coed conwydd yn cael eu dosbarthu'n rhywogaethau estron goresgynnol, a'r bwriad yw rheoli'r goedwig fel coetir cymysg sydd â chonifferau yn bennaf yn y tymor hir. Yn yr

ardaloedd o'r goedwig sydd i fod yn goetir twyni, bydd rhywfaint o reolaeth dros adfywiad conifferau a rheolaeth ar yr isdyfiant yn digwydd. Bydd cynefinoedd agored yn cael eu cadw'n glir o goed conwydd a choed brodorol er budd y cynefinoedd hynny. Ceir amrywiaeth eang o blanhigion gardd estron o amgylch coedwig Niwbwrch oherwydd y cafodd gwastraff gardd ei gludo i mewn pan sefydlwyd y goedwig. Erbyn hyn mae problem fawr o ran aildyfiant planhigion gardd estron ar draws y safle, y mae angen eu symud, yn enwedig *Cotoneaster*.

Plannu coed brodorol. Sut fyddwch chi'n rheoli'r isdyfiant? Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o orchudd sydd ar gyfer mamaliaid bach, adar, infertebratau ac ymlusgiaid yn ardaloedd y planhigfeydd. Mae'r tywod yn frith o nodwyddau ac nid yw'n ymddangos bod llawer arall yn tyfu heblaw am fieri, yr hesgen bendrom (*Carex pendula*) a'r gwlithlys. Mae'n amlwg bod yr haen wreiddiau, yr haen lysieuol, yr haen brysgwydd ac yn sicr yr haen ddringwyr yn absennol.
Bydd plannu rhywogaethau brodorol er mwyn creu isdyfiant yn digwydd mewn nifer o ardaloedd ond dim ond mewn cyfran fechan yn yr ardaloedd hynny a fydd yn newid i fod yn goetir twyni yn y pen draw. Bydd y rhan fwyaf o'r aildyfiant a'r isdyfiant yn datblygu'n naturiol wrth i'r cnydau conwydd gael eu teneuo, gan adael digon o olau drwodd i ysgogi is-haen y coetir i dyfu ac aildyfu. Mae'r ardaloedd gorau lle mae hyn eisoes yn digwydd yn naturiol wedi'u nodi a'u dangos ar y mapiau fel coetir twyni'r dyfodol.

Pan ydych yn sôn bod ardaloedd hanesyddol sensitif y mae angen ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn eu cylch, ydych chi'n cyfeirio at yr anheddau megis y bythynnod gwehyddion a'r efail, yr oedd pobl y dirwedd twyni hanesyddol hon yn eu meddiannu ar un adeg ac sydd ar hyn o bryd mewn perygl o gael eu dinistrio gan wreiddiau coed?
Mae hwn yn gyfeiriad at ymgynghoriad ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ac yn cyfeirio at nifer o ardaloedd a nodwyd ganddynt, gan gynnwys Ynys Llanddwyn, y Cerrig Duon a'r gefnen graig, pyllau a melin Pandy a nifer o anheddau eraill gan gynnwys y gwningar a Hendai.

Sut ydych chi'n bwriadu symud y maes parcio yn ôl i mewn i'r goedwig wrth i'r arfordir erydu?
Dyma un o'r cwestiynau mwyaf anodd a phwysig sy'n ein hwynebu. Nid oes amheuaeth bod terfyn i oes y maes parcio, a bod ymweliadau'n dibynnu ar leoliad y maes parcio sydd, yn ei dro, yn effeithio ar lesiant y gymuned leol. Mae'r Cynllun Pobl sy'n cael ei ddatblygu yn archwilio atebion posibl i faterion a chyfleoedd trafnidiaeth a mynediad o amgylch y safle.

Sut mae pobl yn dod i wybod am yr ymgynghoriad hwn? Ai dim ond drwy e-bost / ar-lein ydych chi'n dosbarthu taflenni'n lleol? Mae llawer iawn o bobl leol yn poeni am y goedwig ond bob amser yn cael eu heithrio o'ch gweithgareddau "ymgysylltu" / "ymgynghori" oherwydd bod cymaint o ddibyniaeth ar fod yn rhan o glic ac/neu ar fod ar-lein.
Hysbyswyd mwy na 2,000 o aelwydydd yn y pum ardal cyngor cymuned sydd agosaf i'r goedwig am yr ymgynghoriad a'r sesiynau galw heibio. Hefyd hysbyswyd mwy na 200 o randdeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y cynlluniau.

A oes unrhyw un o'r nifer fechan o lasbrennau cyll a blannwyd yn 2018 wedi'u gwirio. Rwy'n tybio na allent fod wedi goroesi'r holl redyn, mieri a chwyn eraill y caniatawyd iddynt dyfu'n rhemp ar draws llawr y goedwig hon.

Faint o goed fydd yn cael eu plannu bob blwyddyn i adlewyrchu'r uchod? (Mewn cysylltiad â chynnal cynefinoedd gwiwerod coch a phoblogaethau ohonynt.)
Nid yw rhai o'r ardaloedd sydd wedi'u plannu wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae eraill wedi bod yn fwy llwyddiannus. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig newydd wedi ceisio mynd i'r afael â hyn. Mae'n canolbwyntio mwy ar yr ardaloedd sy'n adfywio'n naturiol neu'n sy'n dangos arwyddion o

adfywio, er mwyn rhoi help llaw i brosesau naturiol yn hytrach na cheisio sefydlu rhywbeth lle nad yw'n ffynnu. Bydd hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy deneuo'r uwch-ganopi ymhellach er mwyn gadael i fwy o olau gyrraedd lefel y ddaear. Lle mae hyn yn digwydd yn naturiol, gall gwaith plannu ychwanegol helpu i hybu'r broses naturiol. Y peth pwysig yw monitro cynnydd a llwyddiant ymyriadau blaenorol o bryd i'w gilydd, a dyma'r hyn y mae'r cynllun wedi'i ystyried.

… bod rheolaeth hirdymor yn flaenoriaeth i ni i gyd. Er bod strategaeth sydd wedi'i datblygu'n dda yn amlwg yn y cynllun hwn, byddai'n helpu ein dealltwriaeth i wybod a yw hwn yn ymgynghoriad go iawn – i'w addasu yn dilyn trafodaethau – ac, os felly i ba raddau y mae unrhyw bryderon yn cael eu hintegreiddio? O ystyried mai yn 2022 y mae rhai o'r dyddiadau ar gyfer cychwyn gwaith, mae hyn yn ymddangos yn hynod o dynn.
Yn yr ymgynghoriad rhoddwyd sylw i'r holl ymatebion a cheisiwyd mynd i'r afael â'r gwahanol safbwyntiau a'r materion a godwyd mewn ffordd gytbwys. Ymgynghorwyd ar y cynllun yn fewnol hefyd ac fe'i gwiriwyd o safbwynt cyfreithiol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol gyfredol. Fel sy'n amlwg yn y ddogfen hon, mae amrywiaeth eang o safbwyntiau, sydd yn aml yn dra gwrthwynebol. Felly, mae'n anodd cyrraedd consensws ar lawer o faterion. Fodd bynnag, mae rhai diwygiadau i'r mapiau a'r amcanion bellach wedi'u gwneud a'u postio yma o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Onid dyna brif nod y cynllun hwn. Ond ni ellir ei wireddu heb ddiddymu y planhigion estron sydd wedi eu plannu yno – y conwydd.  A oes peoses gennych I'w tunnu oddi yno (nid rhimyn bach ar yr ymyl sydd gen I mewn golwg) ? *Mewn perthynas a - Adfer a chynnal nodweddion cynefinoedd twyni tywod ardaloedd cadwraeth arbennig ar hyd yr arfordir, a hynny i gyflwr ffafriol yn unol ag amcanion cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys twyni embryonig, symudol a sefydlog, twyni gyda gorhelyg a chynefinoedd slaciau twyni llaith. Gall hyn olygu cael gwared ar gonwydd o nodweddion o ddiddordeb a'r ardaloedd cyfagos a chaniatáu mwy o le i'r system twyni tywod newid dros amser.*
Diben y Cynllun Adnoddau Coedwig yw rheoli'r goedwig yn y fath fodd fel y gall CNC fodloni'r gofynion ecolegol a chyfreithiol er mwyn cyflawni'r amcan cadwraeth hwn, ac mae'r cynllun yn gwneud hyn. Mae'r cynllun newydd hefyd yn caniatáu ar gyfer addasiadau pellach mewn adolygiadau yn y dyfodol er mwyn parhau i gyflawni'r amcan cadwraeth. Yn ogystal â'r rheolaeth dargedig hon, mae angen iddo hefyd gydbwyso a chyflawni llawer o'r amcanion eraill a nodir yn y cynllun, felly nid yw cael gwared ar y goedwig yn gyfan gwbl yn opsiwn synhwyrol na chytbwys.

Ar bob cyfrif ond pam na ellid diddymu'r conwydd sydd drosto ym mhob man ? *Mewn perthynas a - Rheoli ardaloedd o gwmpas geoparc creigiog cyn-Cambriaidd UNESCO, nodwedd o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig a safle rhanbarthol sy'n bwysig yn ddaearegol. Datgelu nodweddion daearegol pwysig yn hygyrch ar gyfer astudiaeth ymchwil ac at ddefnydd addysgol ar hyd llwybr daearegol arfaethedig.*
Nid pwrpas y cynllun yw tynnu'r holl goed conwydd o'r goedwig. Gellir cyflawni'r amcan drwy reolaeth wedi'i thargedu o amgylch y gefnen graig.

Beth yw pwynt poeni am gotoneaster mae llai o hwnnw yno na chonwydd sy'n chwarae mig hefo'r drefn hydrolegol. Lle mae cysondeb poeni am y planhigion estronol lleiaf ei heffaith ?  *Mewn perthynas a - Rheoli rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS) fel Cotoneaster, Crib y Ceiliog a'r Geiriosen Ddu.*
Gall rhywogaethau o isdyfiant estron atal aildyfiant ar goetir twyni brodorol mewn ardaloedd lle bydd conifferau'n dod i ben yn raddol. Felly, mae angen rheoli ardaloedd lle ceir rhywogaethau estron.

Onid yw'r conwydd yn gwneud gwahaniaeth yma ? *Mewn perthynas a - Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 wrth ymgymryd â gweithgareddau gweithredol trwy ddilyn yr arfer gorau fel yr amlinellir yn 'Safon Coedwigoedd y DU - Canllawiau Coedwig a Dŵr' i ddiogelu ansawdd dŵr ac ecosystemau dŵr croyw yn y goedwig.*
Yr hyn y cyfeirir ato yn yr amcan hwn yw sut y caiff y gweithrediadau eu rheoli er mwyn atal y rheolaeth honno rhag cael unrhyw effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr – nid pa fath o goeden sy'n cael ei rheoli. Mae effeithiau rhywogaethau coed ar hydroleg gyffredinol y safle yn bwnc i'w drafod ar wahân.

Ni ddylai gwiwierod coch fod yn ffactor – ni ddylent fod yno. Oni ddywedwyd o'r dechrau na ddylai y rhain gael unrhyw effaith ar bolisi y safle ? *Mewn perthynas a - Cynnal ac ailgyflwyno cysylltiadau rhwng canopïau ble'n bosib er lles y wiwer goch. Bydd cadwraeth tymor hir, Gwarchodfeydd Naturiol ac oedi cyn teneuo mewn cnydau pinwydd aeddfed a phlannu conwydd newydd mewn ardaloedd priodol, yn helpu i gyflawni hyn.*
Mae'r wiwer goch yn rhywogaeth sydd ar y rhestr goch, ac mae gwiwerod coch wedi bod yn bresennol yn Niwbwrch ers rhai degawdau bellach ac mae poblogaeth gref ohonynt sydd wedi'i chynnal gan gynefin y goedwig. Mae Ynys Môn yn gadarnle i wiwerod coch yng Nghymru a'r DU, ac mae Niwbwrch yn un o'r ardaloedd coediog helaeth mwyaf ar yr ynys.

Dosbarthiad aneglur ydyw Coetir Twyni Arfordirol – beth yw ? *Mewn perthynas a - Cynyddu'r Coetir Twyni Arfordirol yn y goedwig. Mae wedi cael ei ddewis fel safle addas i'r cynefin prin hwn fel rhan o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.*
Mae coetir twyni yn ei hanfod yn goetir brodorol sy'n datblygu ar dirweddau twyni drwy olyniaeth naturiol. Yn nes at y lan mae'n cael ei ddosbarthu fel prysgwydd twyni mewn clytwaith ac wrth i chi symud i mewn i'r tir mae'n ffurfio clystyrau o goetir brodorol sydd wedi addasu i'r amodau lleol. Ychydig iawn o'r math hwn o goetir arfordirol sydd i'w weld yn y DU oherwydd arferion rheoli tir hanesyddol. Dewiswyd Niwbwrch fel safle delfrydol ar gyfer sefydlu'r math hwn o gynefin coetir gan ei fod eisoes yn goediog ac yn addas i'w drawsnewid yn goetir brodorol sy'n fwy addas ar gyfer y safle a'r amodau lleol.

Beth yw hyn ? *Mewn perthynas a - Archwilio cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau teithio llesol strategol newydd i'r goedwig.*
Mae hyn yn ymwneud â chreu a hyrwyddo dewisiadau amgen i gludiant ffordd, megis cysylltu llwybrau beicio a llwybrau cerdded, er mwyn cael mynediad i'r goedwig o bentref Niwbwrch a chymunedau eraill sydd ymhellach i ffwrdd ar Ynys Môn.

Ar bob cyfrif gyhyd ag nad ydyw yn amodi gwir natur y safle. Beth yw agwedd feddal tybed ? *Mewn perthynas a - Ystyried effaith weledol gweithrediadau rheoli coedwigoedd a newidiadau hirdymor o fewn y goedwig i ymwelwyr. Dylid cymryd agwedd feddal at reoli coedwigoedd.*
Mae hyn yn ymwneud â newid graddol, a gwneud gweithrediadau ar raddfa lai ar y safle, sy'n lleihau'r effeithiau ar ymwelwyr. Bydd natur y safle yn newid yn raddol, gyda llai o goed conwydd ar lan y traeth a llawer mwy o gynefin twyni agored a choetir twyni brodorol. Pe bai'r cyfan yn newid yn y deng mlynedd nesaf, byddai'r effeithiau gweledol yn enfawr ac o bosibl hefyd yn ansefydlogi'r goedwig sy'n weddill.

Ydy hyn yn haeddu bod yn bwynt bwled Beth felly sydd i'w wneud i gyflawni hyn ? *Mewn perthynas a - Gwarchod holl henebion a nodweddion hanesyddol wrth gyflawni gweithrediadau rheoli coedwig. Efallai bydd angen ymgynghori ychwanegol mewn ardaloedd archeolegol sensitif fel y'u nodir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.*
Mae'r amcan hwn yn bwysig gan ei fod yn adlewyrchu pwysigrwydd yr archaeoleg ar y safle, ac mae'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol wedi gofyn i CNC ymgynghori â hi mewn ardaloedd penodol o'r safle wrth gyflawni gwaith coedwigaeth.

Ar na hawl yr ydych yn amodi'r safle i wiwerod ? A ydynt bellach yn rhan o'r dynodiad ? *Mewn perthynas a - Cynnal gorchudd coetir/coedwigoedd cyn belled ag y bo modd tra'n bodloni amcanion eraill, yn enwedig o amgylch nodweddion ardaloedd cadwraeth arbennig / safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, rheoli'r Wiwer Goch a'r ddarpariaeth hamdden yng nghoedwig Niwbwrch.*
Mae'n rhywogaeth sydd ar y rhestr goch sydd hefyd wedi'i gwarchod o dan y gyfraith. Mae gorchudd coetir yn cael ei gynnal lle bo'n briodol ar gyfer cynefin gwiwerod coch ac nid yw'n gwrthdaro â nodweddion ACA y safle. Rhoddir blaenoriaeth i nodweddion yr ACA gan eu bod wedi'u gwarchod gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a deddfwriaeth gyfredol y DU. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei gynnal, felly mae'r cynllun newydd yn bodloni gofynion cyfreithiol y Gyfarwyddeb.

Mwy o goed i beth ? *Mewn perthynas a Parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr a chaniatáu cytundebau rheoli pellach a allai gynnwys ardal goedwig fwy.*
Nid yw'r amcan hwn yn golygu y bydd mwy o goed. Mae'n ymwneud â chynllunio i fwy o arwynebedd y coetir ddod o dan reolaeth y grŵp gyda chytundeb rheoli newydd.

Ydyw y gweithgaredd masnachol yn talu ei ffordd – hyd yn oed os ydyw, sut mae amodi rheolaeth safle fel hwn i hynny ? A ydyw ystyriaeth masnachol yn drech na rhai amgylcheddol ? *Mewn perthynas a - Parhau â gweithgarwch masnachol a rheoli'r cnwd pinwydd Corsicaidd aeddfed presennol. Sicrhau hyfywedd masnachol y goedwig yn y dyfodol, drwy ailstocio'r genhedlaeth nesaf o gnydau conwydd cymysg mewn lleoliadau priodol. Cynaeafed ar bob cygfrif – ond ar ba sail mae gofyn ailstocio.*
Plannwyd y safle dros 70 mlynedd yn ôl gyda choed pinwydd Corsica a choed pinwydd yr Alban yn bennaf. Fe'i dynodwyd yn ACA gyda choedwig sefydledig sy'n aeddfedu tuag 20 mlynedd yn ôl. Mae bellach yn elwa'n fasnachol ar y buddsoddiad a wnaed dros y degawdau diwethaf gyda'r cnydau conwydd sy'n aeddfedu y gellir eu cynaeafu a'u rheoli. Mae'r coed a dyfir ar y safle yn binwydd sy'n tyfu'n araf, sy'n werthfawr yn fasnachol ac sydd hefyd wedi atafaelu swm da o garbon dros y blynyddoedd. Bydd rheoli'r safle fel yr amlinellir yn y cynllun newydd yn ffafrio nodweddion yr ACA, ond pan fo'n briodol gellir parhau i reoli'r cnydau yn y fath fodd fel bod y gwerth masnachol a dal a storio carbon yn cael eu hoptimeiddio.

# Awgrymiadau a gwelliannau i'r cynllun

**Awgrymiadau sydd wedi cael eu hystyried a'u trin fel rhan o'r ymgynghoriad a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae'r diwygiadau canlynol i'r cynllun drafft, o ganlyniad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi helpu i fynd i'r afael â'r awgrymiadau a amlinellir isod:

- Cynnwys ymrwymiad i amseru gwaith cwympo coed ar y twyni blaen gyda lwfans ar gyfer rheolaeth ymaddasol mewn Cynlluniau Adnoddau Coedwig yn y dyfodol.
- Cynyddu faint o goed llydanddail (coetir twyni) sydd o amgylch dalgylchoedd tafolen y traeth yng Ngherrig Duon a'r Fryddiau.
- Cynyddu faint o fannau agored sydd ar hyd coridorau tafolen y traeth (gan gynnwys mannau agored a grëwyd gan waith 'Twyni Byw'), ond gyda mannau cyfyng dangosol yn y canopi i sicrhau cysylltedd coetir ar gyfer gwiwerod coch.
- Newidiadau o ganlyniad i fapiau teneuo a gweithrediadau coedwigoedd.

Cofiwch gyfeirio hefyd at ymatebion CNC yn yr adrannau uchod i helpu i egluro'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r awgrymiadau hyn.

Gyda'r argyfwng hinsawdd yn prysur ddod yn realiti, oni ddylem fod yn annog mesurau i ddatblygu morfeydd heli ymhellach, gan eu bod yn atafaelu llawer mwy o $CO_2$ nag unrhyw gynefin tir? Nid yw cynllunio ar gyfer y dyfodol a helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wedi cael ei grybwyll yn unman yn yr amcanion hyd yn oed. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen ei gywiro ar unwaith. Gwarchod morfeydd heli gydag Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Ymgynghori a chael cyngor gan amrywiaeth o arbenigwyr ecolegol er mwyn sicrhau bod eich rhwymedigaethau o ran yr ACA wedi'u cynnwys yn llawn. Ar yr ochr fotanegol, gwneud y mwyaf o gymunedau o blanhigion symudol a lled-sefydlog. Ehangu ardaloedd hen laciau'r twyni, y cafodd cynifer ohonynt eu dinistrio wrth blannu ar y safle'n wreiddiol yn y 1950au a'r 1960au. Agor y gefnen graig er mwyn gadael i rostir arforol ddatblygu. Clirio coed conwydd yn ôl lle maent yn agos i safleoedd hysbys o bwysigrwydd botanegol ar hyn o bryd, ee safle tafolen y traeth. Arfer pori helaeth ar draws ardaloedd ehangach o'r goedwig. Darparu llawer mwy o adnoddau mewnol ar gyfer rheoli a dehongli'r ACA, gan gynnwys adnoddau dynol megis mwy o staff wardeinio.

Mae'r cynllun yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r ardaloedd tua'r môr cyn 2032 – a gallai yn wir adolygu (ac felly oedi) unrhyw newidiadau a nodir wedi hynny. Mae 2032 yn ddyddiad addawol oherwydd mae'n nodi 40 mlynedd ers i Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (mewn ymateb i Gonfensiwn Rio a Chonfensiwn Bern) orfodi'r llywodraeth i roi'r mesurau angenrheidiol ar waith sy'n cyfateb i ofynion ecolegol nodweddion dynodedig ardaloedd gwarchodedig. Mae deugain mlynedd yn oedi gweinyddol eithaf trawiadol. Gallai'r cynllun felly gael ei wella drwy ymdeimlad o frys er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Ar hyd ffin y blanhigfa a'r gwningar agored, mae cadw gorchudd coetir ar hyd llinell syth anhyblyg yn cadarnhau'r honiad uchod mai cynllun coedwig yw'r cynllun hwn ac nad yw wedi'i integreiddio â gofynion safle geosystem ehangach. Nid yw ychwaith yn cydymffurfio â dull goleuedig o ddylunio tirwedd coedwigoedd, sy'n cyd-fynd â'r cyfuchliniau naturiol a'r tirffurfiau. Er ei bod yn ymddangos bod y newid o goed conwydd i goed llydanddail yn cydnabod effaith coed conwydd ar ddŵr daear ac felly ar hydroleg llaciau twyni, mae'r effaith honno, er ei bod yn llai, yn dal i fod yn bresennol mewn

coetir llydanddail. Ymhellach, mae effaith llain gysgodi coetir yn y lleoliad hwn yn debygol o effeithio ar brosesau aeolaidd, gan leihau effeithiolrwydd y mesurau drud iawn a gymerwyd i adnewyddu'r twyni cyfagos. Mae angen addasu'r ffin hon i leihau'r effaith ar yr hydroleg, cynyddu cludiant aeolaidd a chydymffurfio â safonau tirlunio modern.

Mewn gwirionedd ni ddylid cwympo coetir er mwyn creu cynefin twyni oni bai bod union natur a maint y gwaith cwympo yn cael ei ddiffinio ac yn destun ymgynghoriad. Dim mwy o gwympo coed i ddatgelu ffurfiannau creigiau ar draul cynefin gwiwerod coch.

Mae'n ymddangos mai twyni tywod yw prif nod y cynllun. Mae'n sôn am gynefinoedd allweddol, egin-dwyni, twyni symudol, twyni sefydlog a llaciau twyni llaith, ac EFALLAI y gallai hyn olygu tynnu coed conwydd o nodweddion o ddiddordeb a'r ardaloedd cyfagos, gan ganiatáu mwy o le i'r system twyni tywod newid dros amser. Mae'r gair EFALLAI yn cwmpasu llu o bethau ac yn caniatáu i bron unrhyw beth ddigwydd. Ni ddylid defnyddio iaith niwlog o'r fath mewn perthynas â materion mor bwysig, a phe cytunwyd i gael gwared ar ragor o goed, yna mae angen creu lle i blannu coed tebyg mewn ardaloedd eraill fel nad oes unrhyw goedwig arall yn cael ei cholli, ac ni allaf weld sut y gellid cyflawni hynny.

Mae coedwig Niwbwrch yn safle prosiect hollbwysig o fewn y rhaglen Natur am Byth gan ei bod yn gartref i dair o'n rhywogaethau targed: Rhawn yr ebol Baltig (*Chara baltica*), tafolen y traeth (*Rumex rupestris*) a llygoden bengron y dŵr (*Arvicola amphibus*). Mae'r rhywogaethau hyn, er eu bod yn prinhau, wedi llwyddo i barhau lle mae amodau ecolegol a hydrolegol priodol yn dal i fodoli.

Mae tafolen y traeth yn un o blanhigion fasgwlaidd endemig Ewrop sydd o dan y bygythiad mwyaf, ac mae wedi'i ddynodi'n fregus ar Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Mae'r DU yn gadarnle i'r rhywogaeth gyda 40 o leoliadau gwahanol ar draws de-orllewin Lloegr a Chymru. Ar gyfandir Ewrop, mae tafolen y traeth wedi'i chyfyngu i arfordir Normandi a Llydaw yn Ffrainc a Galasia yn Sbaen. Er gwaethaf ei statws gwarchodedig mewnol, mae tafolen y traeth yn dirywio ar draws ei hystod. Yn y gorffennol, mae'r rhywogaeth hon wedi cael ei hesgeuluso'n aml oherwydd ei diffyg carisma.

Rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i warchod tafolen y traeth yn Niwbwrch gan fod y boblogaeth hon ar ffin fwyaf gogledd-orllewinol ei hystod ddaearyddol, a phe bai'r rhywogaeth hon yn cael ei cholli o'r fan hon, byddai'n annhebygol o ddychwelyd oherwydd bod y safle mor bell oddi wrth unrhyw boblogaethau eraill.

Yn flaenorol, byddai'r rhywogaeth hon i'w gweld yn nes at y môr yn Niwbwrch, yn y system twyni tywod, ond mae bellach wedi'i chyfyngu i welyau nentydd bach, ac ymylon llaith pyllau yn y goedwig. Mae gan bob hedyn tafolen y traeth bledren sy'n eu galluogi i arnofio mewn dŵr. Mae hyn yn golygu bod ei wasgariad yn dibynnu ar lif cyson o ddŵr sy'n rhedeg o gefnen craig galchaidd Niwbwrch i'r môr sy'n cysylltu rhwydwaith y goedwig o nentydd a phyllau. Ar hyn o bryd, mae amgylchedd hydrolegol llonydd mewn rhannau o goedwig Niwbwrch, sy'n atal hadau rhag cael eu recriwtio ar hyd y cwrs dŵr a golygu bod poblogaeth tafolen y traeth mewn sefyllfa anffafriol.

Byddem yn gefnogol iawn i unrhyw waith cyfalaf a wneir gan CNC yn Niwbwrch er mwyn newid statws poblogaeth tafolen y traeth yn y goedwig i statws ffafriol, a sicrhau statws cadwraeth hirdymor y rhywogaeth.

Beth fyddai sefyllfa ffafriol o ran tafolen y traeth yng nghoedwig Niwbwrch yn ei golygu?

- Mwy o gysylltedd drwy dynnu a theneuo coed a llystyfiant ar hyd nentydd ac o amgylch pyllau.

- Ailbroffilio ffosydd er mwyn ailsefydlu morffoleg nentydd.
- Adfer cyfanrwydd hydrolegol ar draws coedwig Niwbwrch.
- Cysylltu poblogaethau crair presennol tafolen y traeth â'u cartref, sef y môr.

Yn ystod cam datblygu'r prosiect, rydym wedi cael sawl cyfarfod gyda staff CNC, gan gynnwys Graham Williams, Tristan Hatton-Ellis, David Thorpe a Kathryn Hewitt i amlinellu'r gwaith y manylir arno yn ein cynllun cyflawni prosiect. Rydym hefyd wedi comisiynu contract i Nick Stewart (arbenigwr ar rawn yr ebol) i gynnal arolwg sylfaenol ecolegol ar gyfer rhawn yr ebol Baltig ym mis Tachwedd 2022, ac mae Robbie Blackhall-Miles o Plantlfife yn monitro tafolen y traeth yn barhaus. Nod Natur am Byth yw codi proffil y rhywogaethau targed a geir yn Niwbwrch. Ar gyfer tafolen y traeth, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar adrodd stori tafolen y traeth wrth iddi geisio dod o hyd i'w ffordd yn ôl i'w chartref ger y môr.

Byddai'n dda gweld ymrwymiad ychwanegol i leihau'r effeithiau ar ardaloedd dynodedig cyfagos ACA Glantraeth a SoDdGA Cors Malltraeth.

'*Sicrhau cydymffurfedd â gofynion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 wrth ymgymryd â gweithgareddau gweithredol drwy ddilyn arferion gorau fel yr amlinellir yn 'Safon Coedwigoedd y DU – Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr' er mwyn diogelu ansawdd dŵr ac ecosystemau dŵr croyw o fewn y goedwig.*' – Er bod yr ymrwymiad hwn i'w groesawu, dylai fod ymrwymiad pellach i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd ynghylch rhywogaethau a chynefinoedd ACAau.

**Awgrymiadau cyffredinol sydd eisoes wedi'u hystyried neu wedi'u cyflawni'n rhannol neu'n llawn gan y Cynllun Adnoddau Coedwig**

Cynnal y cysylltiad agos rhwng y goedwig a rhan uchaf y traeth a'r parthau blaendwyn. Mae'n fuddiol iawn i'r cyhoedd o ran iechyd a lles i allu cael ymarfer corff a mwynhad wrth gerdded ym mhob tywydd ac ar yr un pryd weld, arogli a chlywed y môr. Mae'r budd a'r lloches a ddarperir, a'r gallu i fwynhau bod yn agos i'r traeth a'r môr yn bethau na ellir eu gorbwysleisio.

Cydnabod natur geomorffolegol y dirwedd a natur ddynamig y dirwedd honno. Mae hon yn nodwedd SoDdGA – ac yn sail i holl nodweddion yr ACA – ac mae'n sylfaenol o ran deall a rheoli'r adnodd tir. Nid oes sôn am hyn o gwbl yn y cynllun.

Mae coed a choedwigaeth ymhell i lawr y rhestr gryno o amcanion: dylent fod ar y brig neu'n agos i'r brig ar gyfer ardal y goedwig - nid yw hynny'n golygu y byddai llai o bwyslais ar yr amcanion eraill. Yn hytrach byddai'n dangos bod y "goedwig" yn goedwig yn anad dim (a gobeithio mai felly y bydd yn parhau).

Yn y dyfodol byddai'n dda gweld ardal y twyni yn ehangu ymhellach.

Sicrhau nad oes nifer fawr o goed yn cael eu cwympo na'u tocio ar y tro gan greu safle hyll o fonion coed.

Llai o goed conwydd

Mwy o fannau agored i annog bioamrywiaeth, a gwarchod rhywogaethau prin a rhywogaethau sydd o dan fygythiad.

Mudo ardaloedd blaen y goedwig tua'r tir er mwyn creu amodau mwy ffafriol i'r twyni.

Mae'n dda gweld, wrth gynaeafu coed, mai'r nod yw lleihau'r effaith ar y goedwig a bywyd gwyllt drwy ddefnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith. Fodd bynnag, rydym wedi nodi, mewn rhai ardaloedd, mai'r bwriad yw llwyrgwympo dros gyfnodau o bum mlynedd oherwydd "nid yw bob amser yn bosibl defnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith, fel arfer oherwydd bod y safle'n rhy wyntog (mae risg y bydd coed yn chwythu drosodd)". Gall planhigfeydd ddarparu clwydfannau ar gyfer rhai rhywogaethau o ystlumod, yn enwedig os yw'r coed yn datblygu nodweddion clwydo posibl neu y gadewir iddynt heneiddio. Bydd coed a chwythir drosodd gan y gwynt yn darparu prennau meirw sydd wedi cwympo'n rhannol a all hefyd gynnal nodweddion clwydo ar gyfer y dyfodol. Rydym yn deall pa mor bwysig yw cael cynefinoedd addas ar gyfer rhywogaethau cynefin agored, yr angen i echdynnu pren i gael incwm ac i roi sylw i iechyd a diogelwch, ond hoffem argymell bod clytiau sydd heb eu rheoli, a elwir yn 'ynysoedd cynefin', yn cael eu cadw dros y tymor hir pan fo modd mewn ardaloedd y mae coed wedi'u cwympo ynddynt. Bydd hyn yn darparu parhad cynefin ac amgylchedd clwydo yn yr ardal ar gyfer nythfeydd o ystlumod sydd wedi arbenigo i gynefin coetir, yn ogystal â chysylltedd ag adrannau coedwig cyfagos ac â'r dirwedd ehangach. Mae hyn nid yn unig yn werthfawr i'r ystlumod sy'n eu defnyddio, ond bydd bioamrywiaeth arall yn elwa ar y pethau hyn hefyd.

**NI** ddylid torri ymyl y goedwig ar lan y traeth sy'n rhedeg o'r maes parcio i drigolion i'r maes parcio cyhoeddus. Dyma ymyl y goedwig sy'n agored i'r gwynt, ac mae'n gweithredu fel llain gysgodi sy'n amddiffyn y goedwig y tu ôl iddi. Mae'n hanfodol i oroesiad y goedwig. Mae'r stribed hwn sy'n cynnwys coed pinwydd Corsica yn bennaf wedi cael ei siapio dros ddegawdau gan y prifwyntoedd cryf o'r de-orllewin ac mae ganddo broffil ramp. Coed crebachlyd yn y blaen, y mae rhai ohonynt yn farw hyd yn oed ond sy'n dal i dorri'r gwynt. Nid ydynt yn peri unrhyw risg o ran iechyd a diogelwch gan eu bod mor fach, ar ffurf bonsai oherwydd yr amodau garw. Mae'r coed y tu ôl i'r ramp hwn o

leiniau cysgodi yn mynd yn dalach gyda dail mwy trwchus gan eu bod yn dibynnu ar y coed o'u blaenau i'w hamddiffyn rhag y gwyntoedd hallt. Mae'r cydbwysedd hwn wedi datblygu dros ddegawdau lawer. Mae hefyd yn creu'r apêl esthetig ddymunol y mae Niwbwrch yn enwog amdani, sef y goedwig pinwydd a'r traeth tywodlyd y mae'r llu o ymwelwyr yn eu mwynhau. O safbwynt cost a budd, mae'n bwysig nodi bod y llain o goed rhwng y traeth a thrac y trigolion yn gweithredu fel hidlydd tywod naturiol sy'n dal y tywod sy'n cael ei chwythu gan y gwynt cyn iddo orchuddio trac y trigolion. Dangosir y pwynt hwn drwy nodi lle gosodwyd yr hen lwyfan gwylio (cyn iddi gael ei golchi i ffwrdd!) ger y maes parcio cyhoeddus ar ddechrau trac y trigolion. Er mai dim ond llain gul o goed (llai na 10 metr o led) a dynnwyd cyn adeiladu llwyfan gwylio'r traeth, fe olygodd bod y tywod a chwythwyd gan y gwynt yn gallu mynd heibio'r llain gysgodi a rhwystro trac y trigolion â thywod mân. Mae'n rhaid clirio hwn o bryd i'w gilydd, sy'n cymryd amser i CNC a chostio arian iddo. Fodd bynnag, rhaid imi ychwanegu bod CNC wedi cydnabod y broblem hon, ac oddeutu pum mlynedd yn ôl gosodwyd ffensys castanwydd rhwng y traeth a'r trac yn yr ardal hon yr oedd tywod yn pasio drwyddi. Mae'r ffensys wedi helpu'n fawr drwy leihau faint o dywod sy'n gorchuddio'r trac, a lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i'w gadw'n glir a lleihau'r gost o wneud hynny. Ond fy mhwynt yw, pe bai'r llain gyfan ar ymyl y goedwig yn cael ei chwympo rhywbryd, byddai'n achosi i'r trac gael ei orchuddio'n llwyr â thywod ymhen ychydig fisoedd, a byddai'n dinistrio'r seilwaith pwysig hwn am gost ddiangen fawr. Byddai'n gwneud trac y trigolion yn ddiwerth, a byddai hynny'n cael effaith hynod negyddol ar drigolion Niwbwrch ac ar ymwelwyr sy'n hoffi cerdded y ffordd hon ar hyd ymyl y goedwig. Byddai goblygiadau diogelwch i hyn o ran atal gwylwyr y glannau rhag cael mynediad cyflym i'r traeth mewn argyfwng a byddai hefyd yn amharu ar y defnydd o'r amwynder ar gyfer digwyddiadau ParkRun, digwyddiadau chwaraeon ac ati. Felly, a fyddech cystal â gwarchod ymyl y goedwig hon sy'n wynebu'r gwynt oherwydd ei bwysigrwydd strategol. Os unrhyw beth, fe ellid ei wella ymhellach drwy ei dan-blannu â choed pinwydd yr Alban Caledonaidd brodorol er mwyn hybu ystod oedran amrywiol. Mae coed pinwydd yr Alban Caledonaidd, yn enwedig coed o darddiad gorllewinol, yn fwy ymwrthol i falltod nodwyddau bandiau coch nag yw coed pinwydd Corsica. Mae hefyd yn fwyd hanfodol i wiwerod coch a gylfingroesion sy'n mynychu ymyl y goedwig hon. Byddai coed pinwydd yr Alban brodorol hyn wedyn yn gweithredu fel coed had yn y degawdau i ddod a gallent hwyluso ffordd barhaus o reoli'r gorchudd yn yr ardal hon. Rwy'n ymwybodol bod lefel y môr yn codi, ond NI ddylid defnyddio hyn fel esgus i dorri'r coed yn ymyl gwyntog y goedwig hon. Mae'r seilwaith a'r goedwig y tu ôl iddo yn dibynnu arno. Drwy gynnal yr ymyl hwn o'r goedwig, bydd hyn hefyd yn helpu i atal y pridd rhag cael ei erydu.

Mae coedwig Niwbwrch yn bwysig i iechyd a llesiant pobl, a chan nad oes gan Ynys Môn lawer o goed yn gyffredinol – ac mae tystiolaeth bod coed yn dda i'n hiechyd – mae'n lle pwysig iawn i ymweld ag ef. Mae'r goedwig yn gorchuddio ardal gymharol fach lle mae'n cyrraedd y môr, sy'n wych ym marn llawer o bobl, ond sy'n rhywbeth cyffredin mewn ardaloedd tramor. Mae hyn yn brin yn y DU a dylid ei hehangu yn hytrach na'i lleihau, felly dylai gwella ymyl y goedwig wrth y traeth fod yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gymryd newid hinsawdd i ystyriaeth wrth gwrs.

**Awgrymiadau a fydd yn cael eu hystyried yn y Cynllun Rheoli Cadwraeth newydd**

Yn fras, mae'r Cynllun Adnoddau Coedwig yn gynllun mwy strategol a hirdymor sy'n gosod cyfeiriad y weledigaeth ar gyfer ardal y goedwig. Bydd yr awgrymiadau canlynol, sy'n cynnwys mwy o fanylion am rywogaethau a materion penodol, yn cael eu hystyried a'u trin yn y Cynllun Rheoli Cadwraeth newydd:

Dealltwriaeth gliriach o ba rywogaethau y byddai'r ardaloedd llydanddail brodorol yn eu cynnwys a sut y byddai'r rhain yn cael eu rheoli.

Drwy blannu'n ofalus gellid ychwanegu coed amrywiol sy'n darparu bwyd i wiwerod coch ar wahanol adegau, gan gynnwys rhywogaethau brodorol ac anfrodorol (yn yr ardaloedd gwyrdd lle ceir coed conwydd yn bennaf). Rwy'n deall y gallai hyn fod yn rhan o'r cynlluniau arfaethedig, ond nid yw hyn yn gwbl glir.

Gyda'r cymysgedd cywir o welliannau o'r math hwn ar gyfer gwiwerod coch, byddai achos cryfach wedyn i ganiatáu mwy o waith adfer twyni tywod ac ardaloedd o brysgwydd twyni ac ardaloedd olyniaeth, yn enwedig lle mae'r rhain yn ffinio â chynefin twyni presennol (sef y dwyrain, y de a'r de-orllewin yn arbennig).

Yn bendant byddai ffordd o reoli cynefinoedd yn fwriadol i'w chroesawu, er budd madfallod y tywod yn ardaloedd y twyni a'r ardaloedd adfer twyni, yn enwedig er mwyn eu hannog i gytrefu o'r ardaloedd lle maent yn bresennol yn y gwningar (y tu allan i ardal y goedwig a reolir), tuag ochr ddwyreiniol y safle.

Ar ran fewnol yr aber (Malltraeth), mae cyfle i sefydlu ecoton gwerthfawr rhwng morfa heli agored a choetir brodorol (coed helyg yn bennaf) sy'n brin mewn mannau eraill. Dylid nodi hyn yn benodol fel y gellir cymhwyso polisi priodol. Yn anffodus mae'r cynllun ar hyn o bryd yn cynnig ardaloedd o goed conwydd yn bennaf ar hyd llawer o'r draethlin hon. Cyfle arall wedi'i golli.

Mae angen diffinio'r rhywogaethau o goed coedwig sydd i'w plannu gyda rhestrau o'r rhywogaethau o goed a chyfran pob un yn y cynllun plannu. Yn yr un modd mae angen diffinio ar ba raddfa y mae 'adfywio naturiol' i ddigwydd, a sut y bydd yn cael ei reoli.

Wedi darllen y ddogfen ni fydd gan y darllenydd unrhyw syniad o ran faint o wiwerod coch y bydd y cynllun yn galluogi'r goedwig i'w cynnal. Dylai fod dosbarthiad y boblogaeth wedi'i ddiffinio a phatrymau helaethrwydd sy'n adlewyrchu'r newidiadau a ragwelir yn y cynefinoedd. I'r perwyl hwnnw mae angen mynegi'r nifer yn nhermau'r miloedd o goed ifanc a fydd yn cael eu plannu'n flynyddol. Dylid dilyn esiampl Forestry England a Nature Scot drwy gynllunio cadwraeth gwiwerod coch gan ddefnyddio rhywogaethau diffiniedig mewn cymysgeddau cymhareb diffiniedig er mwyn rhagfynegi'r capasiti yn y dyfodol.

Mae angen diffinio graddfa a rheolaeth adfywio NATURIOL.

Roedd hwn yn brosiect arloesol i ailgyflwyno gwiwerod coch i Ynys Môn, ac ar yr adeg honno, yng nghoedwig Niwbwrch yn benodol, er mwyn helpu i amddiffyn yr anifail hwn sydd mewn perygl ac sy'n wynebu difodiant oherwydd y wiwer lwyd estron, felly mae'n hynod bwysig bod y cymysgedd cywir o goed yn cael eu plannu er mwyn eu galluogi i ffynnu ochr yn ochr ag unrhyw waith plannu a chwympo masnachol, sef gwaith cwympo a ddylai fod yn 'waith cwympo gorchudd parhaus'.

Dylid ystyried pa rywogaethau o goed pinwydd yw'r rhai cywir i'w dewis wrth symud ymlaen, gan gynnwys eu hymwrthedd i glefydau, addasrwydd y safle iddynt, eu gallu i wrthsefyll y newid hinsawdd, yr hadau côn sy'n addas ar gyfer y wiwer goch a'r gylfingroes, a phren â gwerth da.

Dylid rheoli rhai llennyrch ar gyfer hybu bioamrywiaeth. Dylid tanblannu â phlanhigion brodorol a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac ati.

Gellid gwella'r ymadrodd "… nifer o rywogaethau o adar, mamaliaid fel ystlumod a thylluanod …" yn y cynllun!

Does dim sôn (ni sylwais ar unrhyw sôn) am ddyfrgwn – mae llawer o bethau wedi cael effaith negyddol ar eu cynefinoedd.

Wnes i ddim sylwi ar unrhyw sôn penodol am amffibiaid ac ymlusgiaid, ac eithrio'r fadfall ddŵr gribog (dim ond cyfeiriad dibwys at yr "ecosystem y coetir") – mae'r un peth yn wir am lawer iawn o arferion rheoli niweidiol yn ddiweddar.

Wnes i ddim sylwi ar unrhyw beth penodol am adar (heblaw am yr un cyfeiriad dibwys at "ecosystem y coedlannau"), heblaw un cyfeiriad at gigfrain – beth am y gylfingroesion (y mae eu niferoedd yn prinhau), gweilch y pysgod, bodaod, bwncathod, mathau eraill o frain, teloriaid, a'r holl fathau adar mwy "arferol".

Mae yna nifer o blanhigion prin yng nghoedwig Niwbwrch sydd – er nad ydynt yn gymwys fel nodweddion y SoDdGA neu'r ACA ynddynt eu hunain – yn brin yn genedlaethol, a dylid eu rheoli'n briodol. Nid yw'n ymddangos bod y rhywogaethau hyn wedi'u cynnwys yn benodol gan yr amcan hwn nac unrhyw amcan arall ychwaith.

Mae angen plannu miloedd o'r coed hyn, fel pinwydd yr Alban, ochr yn ochr â chymysgedd cyfoethog ac amrywiol o rywogaethau coed. Os yw CNC o ddifrif am fod eisiau cefnogi a diogelu'r wiwer goch, mae angen iddo fod o ddifrif o ran cadw cofnod o'u niferoedd, plannu'r coed newydd hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi ar wahanol gymarebau twf, a chadw llygad ar eu goroesiad drwy gadw rheolaeth ar ardaloedd lle mae gormod o isdyfiant. Awgrymir y byddai plannu tua 49 y cant o goed pinwydd yr Alban, gyda choed ffawydd, coed castanwydd pêr, coed ceirios a choed cyll yn hybu cynnydd yn niferoedd y wiwer goch a'r nifer sy'n goroesi, a gallai ardaloedd a ddiffinnir fel coed conwydd masnachol gynnwys coed bedw.

Dylid ail edrych ar strwythur rheolaeth safle Niwbwrch oherwydd ei bwysigrwydd rhyngwladol Ewropeaidd. Dyma gyfle am newid mawr cyffrous i'r ardal.  Mae Niwbwrch yn unigryw ac angen ymateb rheolaethol unigryw eu hunan, dyma gyfle i newid ei'n ffordd a treialu dull lleol yn hytrach na dilyn model generic yr Deyrnas Unedig o reoli stadau coedwigaeth.

**<u>Awgrymiadau a fydd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Pobl newydd</u>**

Hoffwn weld llawer mwy o sylw yn cael ei roi i amgylchedd hanesyddol y twyni a'r organebau sy'n byw yno ac i'r nodweddion daearegol ac archaeolegol. Gellid gwneud cymaint mwy o'r rhain, a'u datblygu fel adnoddau addysgol pwysig ac atyniadau i ymwelwyr.

Hoffwn hefyd weld mesurau'n cael eu rhoi ar waith i amddiffyn bywyd gwyllt ymhellach rhag gweithgareddau dynol a chŵn. Os bosibl, dylai unrhyw amcan sy'n ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth yr ardal hefyd grybwyll y cynefinoedd arfordirol a morol sydd â chysylltiadau mor agos a chymhleth â Niwbwrch? Beth am gyflwyno ardaloedd lle na chaniateir cŵn ar adegau penodol o'r flwyddyn er mwyn gwarchod adar sy'n nythu ar y ddaear? Ac ardaloedd lle mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn fel nad ydyn nhw'n gallu mynd ar ôl gwylanod ac adar hirgoes?

Mae’r ffaith bod yr holl gyfleusterau hamdden yn dal i fod ym mhrif faes parcio’r traeth yn peri risg uchel. O ystyried y profiad o symudiad anferth y draethlin a’r ffaith y collwyd cyfleusterau ar yr adeg hon yn 2013-14, dylai adleoli’r cyfleusterau hyn i leoliad mwy diogel a chynaliadwy fod yn flaenoriaeth uchel. Nid yw’r cynllun yn mynd ar gyfyl y pwnc hwn, felly collwyd cyfle i egluro’r angen dybryd i ymateb yn adeiladol i newid arfordirol.

Wnes i ddim sylwi ar unrhyw beth am gynlluniau rheoli traffig – ddim yn y goedwig nac o ran cael mynediad iddi.

Pryder ynghylch nifer y cerddwyr cŵn nad ydynt yn cymryd sylw o’r arwyddion ynglŷn â pha ran o’r traeth a phryd, tenynnau ac ati (angen arwyddion mwy eglur a mwy o faint gan nad yw’n amlwg beth yw’r rheolau – nid yw’r bobl leol yn siŵr hyd yn oed).

Pryder ynghylch nifer yr ymwelwyr a’r chwaraeon cymysg – nofio, caiacio, padlfyrddau, syrffio barcud ac ati (dylid cyfeirio’n gliriach at yr ardaloedd diogel fel y gellir cymryd rhan mewn chwaraeon cymysg ond nid i gyd yn yr un lle, sy’n beryglus).

Mae angen ei gwneud hi’n haws i fynd i’r traeth – ar ôl helpu gyda damwain yn ddiweddar, mae’n hynod o anodd i gyrraedd mewn argyfwng, ac nid yw’n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Hefyd mae erydu’n digwydd o ganlyniad i’r ffaith bod nifer o fynedfeydd a’u bod yn cael eu gorddefnyddio yn achosi erydiad. (Pe bai mynedfeydd priodol lle mae’r ddaear wedi’i baratoi yn well, a gatiau i atal ceir cyffredinol rhag mynd i’r traeth, byddai hyn yn hwyluso mynediad mewn sefyllfaoedd brys ac yn helpu i leihau erydiad)

Dwi wir yn teimlo y dylech chi ymestyn y ffordd er mwyn creu llwybr cylchol sy’n dod allan gyferbyn â Llyn Parc Mawr. Gellid creu meysydd parcio eraill ar hyd y ffordd, neu gellir neilltuo rhai ar gyfer pobl anabl yn unig.

Byddwn hefyd yn creu man parcio a theithio mawr mewn caeau fferm sydd gryn bellter i ffwrdd, ac yna cyflwyno gwasanaeth gwennol parhaus i’r traeth ar fws mini, neu dractor a threlar, neu ar drên mini neu, os am wario arian go iawn, adeiladu system car cebl o faes parcio’r cae, dros y coed ar ymyl y pentref ac i lawr i’r traeth. Byddai hyn yn lleihau llygredd i’r pentref ac i ffordd y goedwig ac yn cynnig golygfeydd gwych dros Eryri, a byddai’n gallu rhedeg yn barhaus gydag chyfarpar traeth. Byddai hyn wedyn yn rhyddhau llwybrau’r goedwig ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Plîs, plîs gawn ni rywfaint o gefnogaeth i bobl anabl. Does dim ffordd o gwbl o weld y traeth nawr bod y llwyfan wedi’i orchuddio gan dywod. A dydi cadeiriau olwyn ddim yn gweithio ar lwybrau tywod meddal na llwybrau graeanog … ar y cyfandir mae yna lwybrau pren. Dydw i erioed wedi bod i Landdwyn gan nad ydw i’n gallu cerdded yno, ond dwi’n byw efo o yn fy ngardd gefn! Rhyw fath o wasanaeth Land Rover warden i bobl sy’n methu cerdded?

Dylech fod yn trefnu canolfan llogi / gwerthu beicio-a-cherdded gwych i annog pobl i ddefnyddio’ch safle mewn ffordd iach, gan arwain at weddill Ynys Môn.

Byddai’n dda gweld caffi parhaol braf, cyfleuster i logi beiciau a chyfleusterau llogi offer chwaraeon dŵr yn y maes parcio. Nid yw agwedd fasnachol y cynllun yn ddatblygedig iawn nac yn dryloyw.

Mae mynediad am ddim i’r maes parcio i drigolion lleol yn bendant yn rhywbeth a ddylai barhau. Mae’n adnodd lleol gwerthfawr.

Mae angen mynd i’r afael â phroblemau traffig i mewn ac allan o’r goedwig er mwyn dod o hyd i ateb cynaliadwy hirdymor. Mae’r effaith ar bentref Niwbwrch ar adegau prysur yn broblem ac mae’r system o giwio i dalu wrth ymadael yn cael effaith negyddol ar brofiad ymwelwyr.

Darparu cyn lleied â phosibl i dwristiaid.

Yn aml, gall y trac sy'n gadael y goedwig ger y rhwystr fod yn llawn ar adegau prysur – gellid lleddfu hyn drwy atgoffa gyrwyr i gael eu dulliau talu'n barod drwy osod arwydd sy'n weladwy wrth iddynt giwio i adael.

Byddai'n ddefnyddiol pe gellid hysbysebu digwyddiadau yn gliriach ac ymlaen llaw – yn aml nid yw'r dyddiadau / amserau'n amlwg pan fyddwch yn gyrru heibio, ac weithiau dyw'r arwyddion ddim yn mynd i fyny nes bod y digwyddiad ymlaen – efallai y gellid rhoi arwyddion o'r fath ar y gylchfan wrth y bwth / y fynedfa i'r goedwig.

Mae mynediad am ddim i'r maes parcio i drigolion lleol yn bendant yn rhywbeth a ddylai barhau. Mae'n adnodd lleol gwerthfawr.

Wnes i ddim sylwi ar unrhyw beth am gynllunia rheoli traffig – ddim yn y goedwig nac o ran cael mynediad iddi.

Cynnwys addysg.

Dylid cynnwys mwy o arwyddion am goed – rhywogaethau, defnyddiau, buddion, ac ati.

Gweithio gyda'r cyngor i wella mynediad ar lwybrau troed / mynediad diogel heb draffig o'r pentref i'r goedwig – yn enwedig ar gyfer pobl lai abl neu bobl gyda bygis ac ati.

Mae yna lawer iawn o botensial i ddefnyddio'r goedwig ar gyfer ymwelwyr drwy adeiladu safleoedd gwersylla a llety (mewn ffordd ystyriol) a chyfleusterau eraill, chyfleoedd i wella'r sefyllfa o ran parcio ceir oherwydd ar rai dyddiau yn ystod yr haf mae'r meysydd parcio weithiau'n llawn a'r traffig yn ymestyn yn ôl i Niwbwrch.

Mae'n safle hynod boblogaidd, yn denu tua 400,000 y flwyddyn, lle mae ansawdd yr amgylchedd naturiol yn cyfrannu'n sylweddol at les cymunedau lleol, yn ogystal â mwynhad ymwelwyr. Bydd angen sicrhau rheolaeth gynaliadwy o'r safle rŵan, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O safbwynt Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), rydym yn awyddus i sicrhau bod poblogrwydd y safle, ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol, yn cael budd cadarnhaol ar gymunedau cyfagos a'r ardal gyfagos (gan leihau unrhyw effeithiau negyddol ar yr un pryd).

Pwysleisiwn yr angen i'r Cynllun gydnabod ac yn adeiladu ar boblogrwydd y safle. Mae felly'n hanfodol bod angen sicrhau fod digwyddiadau hamdden a masnachol ddim yn cael effaith negyddol ar y traffig a'r priffyrdd.

Mae angen cyfeirio at Llanddwyn yn y Cynllun. Mae nifer o ymwelwyr yn defnyddio'r goedwig fel mynedfa at Ynys Llanddwyn a'r Traeth. Angen ystyried yr ased yn ei gyfanrwydd. Y ddau leoliad yn mynd law yn llaw.

Bydd angen i'r Cynllun ystyried datrysiadau tymor hir i broblemau traffig. Yn enwedig yn ystod tymor yr haf pan nad yw'r cyflenwad parcio yn cwrdd â'r galw. Gall hyn gynnwys cyflwyno systemau parcio a theithio (park and ride). Gwersi i'w dysgu o leoliadau yn Eryri. Rydym yn cydnabod a chefnogi fod CNC wedi rhoi cynllun tymor byr mewn lle (rheoli traffig ar gyfer sgwâr Niwbwrch ar gyfnodau prysur). Pwysleisiwn fod angen cynllunio tymor hir, canolig a byr er mwyn delio gyda'r cynnydd presennol, a phosib trwy'r cynlluniau yma, mewn traffig yn yr ardal yma.

Mae gan Gyngor CSYM gynllun pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer yr Ynys, Gwerthfawrogir y cyfle i drafod ymhellach gyda CNC y cyfleoedd i ystyried darpariaeth gwefru ceir trydan.

Yn gefnogol iawn o’r pwyslais ar yr angen i wella cysylltiadau teithio llesol. Mae CSYM yn cefnogi’r cynllyn Glasffordd Môn, sef llwybr di-draffig fydd yn cysylltu ardal coedwigaeth Niwbwrch gyda lôn las Cefni ac yn galluogi defnyddwyr teithio llesol o bob oed a gallu i gerdded a beicio i’r warchodfa natur. Bydd y llwybr yn darparu ar gyfer teithiau bob dydd trigolion ac yn arddangos tirwedd unigryw Ynys Môn i ymwelwyr, gan ddosbarthu buddion twristiaeth yn fwy cyfartal ar draws yr ynys. Bydd y llwybr yn cyfrannu at greu coridor o seilwaith gwyrdd a glas a all gynyddu bioamrywiaeth trwy greu, cysylltu ac ymestyn cynefinoedd i alluogi symudiad bywyd gwyllt.

Mae CSYM yn ystyried opsiynau o ddatblygu llwybr teithio llesol o Bont Marcwis, Malltraeth i bentref Niwbwrch, gan gynnwys coedwig Niwbwrch. Bydd y cynllun yma yn cyfranu at weledigaeth Glasffordd Môn, gan wella cysylltiadau teithio llesol gyda’r lleoliadau dan sylw fel rhan o’r cynllun yma i reoli Coedwig Niwbwrch.

Dylid sicrhau fod y cynllun ddim yn cael effaith negyddol ar lwybr yr arfordir

Bydd angen i’r Cynllun ystyried Rheolaeth gynaliadwy o’r tir a dŵr i gefnogi a gwella llesiant cymunedol

Ceir gyfle drwy’r Cynlluniau i hyrwyddo De-orllewin Môn fel lle unigryw a phoblogaidd i gryfhau'r economi ymwelwyr. Yn ogystal â darparu cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Ceir gyfle yn ogystal trwy’r cynllun i wella dealltwriaeth am amgylchedd naturiol yr Ynys (gan gynnwys AHNE Ynys Môn a safleoedd eraill dynodedig).

Bydd angen sicrhau cydweithio agosach rhwng y cynllun newydd â’r Cynllun Rheoli AHNE statudol ar gyfer AHNE Ynys Môn [2022-27].

Mae gan CSYM dir ger Lôn Llanddwyn sydd wedi ei leoli yn agos at ganol Niwbwrch (ble mae’r hen doiledau cyhoeddus). Croesewir y cyfle i gyd-weithio er mwyn cael ased cymunedol, e.e. caffi / parcio EVs / toiledau / pwynt gwybodaeth ayyb.

Bydd angen cydweithio a rhoddi ystyriaeth ar sut i annog llai o gerbydau i barcio a theithio drwy bentref Niwbwrch, er mwyn lleddfu effeithiau traffig ar y gymuned. Mae Sgwâr Niwbwrch yn gallu bod yn broblemus. Rydym yn argymell fod opsiynau yn cael eu datblygu i archwilio gwahanol lwybrau mynediad, mynediad a gadael yn ogystal ag opsiynau parcio gwahanol.

Croesewir y cyfle i drafod opsiynau ar gynlluniau teithio amgen, gan gynnwys teithio llesol.

Nid yw’r maes parcio yn nhraeth Niwbwrch yn ddigonol ar hyn o bryd i ymdopi gyda’r holl ymwelwyr, felly mae angen ystyried goblygiadau'r cynllun yma ar gynnydd pellach mewn ymwelwyr.

Gofynnir i CNC ystyried goblygiadau Newid Hinsawdd ar faes Parcio traeth Niwbwrch, mae mewn lleoliad bregus a gallai gael ei golli o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd.

Mae’n bwysig sicrhau fod gwasanaethau cynnal a chadw a masnachol coedwigaeth yn parhau i ddefnyddio lôn Malltraeth ac nad ydynt yn defnyddio lôn Niwbwrch er mwyn cael mynediad i’r goedwig.

CSYM sy’n gyfrifol am reoli parcio ar y briffordd yn yr ardal yma (ar hyd yr A4080). Yr ardal yma dderbyniodd yr ail uchaf o ran niferoedd o ddirywion parcio yn ystod 21/22, cyfanswm o 35.

Ychydig o wybodaeth gyd-destunol a gyflwynir am yr amcanion felly bydd yn anoddd monitro llwyddiant y cynllun e.e Un amcan yw caniatáu i brosesau naturiol ddod yn fwy amlwg – beth fyddai effeithiau tebygol dim neu ychydig o ymyrraeth? Beth yw'r hyd gylchdro tebygol ar gyfer y conwydd ac effaith tebygol Systemau Coedamaeth Effaith Isel parhaus. Mae angen mwy o fanylion am y prosesau naturiol y dylid caniatáu iddynt ddod yn fwy blaenllaw? Yn ogystal nid oes targedau clir ar gyfer y gweithrediadau coedwigoedd i gefnogi'r amcanion.

Awgrymir fod angen i'r Cynllun gyfeirio at sut mae'n darparu cysylltedd â chynefinoedd cyfagos [tir sy'n ffinio ag ystâd CNC]

Mae angen gwell eglurhad am y gwrthdaro rhwng coetir a thwyni tywod symudol.

Yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun newydd, bydd angen am fwy o gydweithio a gwaith partneriaeth rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid.

Dylai'r Cynllun weithio ochr yn ochr â GeoMôn (Geoparc Byd-eang UNESCO) mewn perthynas â safle(oedd) SSSI/RIGS ddaearegol er mwyn sicrhau rheolaeth briodol o'r ased daearegol

Bydd angen i'r Cynllun ystyried effaith y defnydd o'r ffyrdd coedwig ar gynefinoedd a rhywogaethau.

Mae angen ail fynedfa i'r maes parcio. Ni fu ei hangen hyd yn hyn efallai, ond gallai argyfwng ddigwydd unrhyw bryd a allai olygu bod angen i injan dân allu mynd i rannau o'r goedwig, a gallai eu llwybr fod wedi'i rwystro gan gerbydau eraill ar y ffordd un lôn. Mae'r un peth yn wir am gerbydau brys eraill, ee ambiwlansys sydd angen mynediad er mwyn gallu ymateb i ddamweiniau môr neu drin pobl ar y traeth sy'n mynd yn sâl. Rwy'n synnu nad yw'r agwedd hon ar ddiogelwch wedi cael sylw o'r blaen gan ei bod hi'n hanfodol bwysig o'm safbwynt i.

Mae'r goedwig yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr. Rhwng pentref Niwbwrch a'r Cob, ar brifffordd yr A4080, mae angen gwneud y llwybr troed yn ddi-dor er mwyn sicrhau y gall cerddwyr gyrraedd y gwahanol fynedfeydd yn ddiogel. Mae'r ffordd yn syth ac mae cerbydau'n rasio ar ei hyd, felly dylid ystyried naill ai gyflwyno terfyn cyflymder neu greu trac diogel ar ymyl y ffordd lle mae hen ddigon o le, a hynny fel blaenoriaeth.

Cynnal mynediad i'r maes parcio i drigolion ar hyd trac y trigolion. Cynnal y mynediad presennol ar gyfer pysgotwyr lleol o'r maes parcio i drigolion i lawr y llwybr byr i'r traeth fel y gallant lansio cychod pysgota bach. Mae'r llwybr byr hwn yn aml wedi'i orchuddio â thywod sydd wedi'i chwythu gan y gwynt. Mae'n bwysig ei gadw'n glir ar gyfer pysgotwyr lleol a gwylwyr y glannau fel ei gilydd. Elfen ddiogelwch bwysig ar gyfer gwylwyr y glannau o ran eu galluogi i gyrraedd argyfyngau ar y traeth yn gyflym.

Nifer yr ymwelwyr a chapasiti'r safle.
Mae coedwig Niwbwrch a'r gwningar yn cynnwys nifer o ecosystemau bregus iawn. Gall gormod o aflonyddwch gan bobl beri problemau i'r ecosystemau hyn. Mae niferoedd gormodol o ymwelwyr yn achosi dirywiad yn ansawdd yr ecosystemau hyn. Ar hyn o bryd mae'r safle wedi cyrraedd terfyn uchaf ei gapasiti o ran cynnal ymwelwyr. Rhaid gofalu nad oes cynnydd gormodol pellach yn niferoedd yr ymwelwyr. Gellir cyflawni hyn yn hawdd trwy **BEIDIO** ag adeiladu mwy o feysydd parcio a **PHEIDIO** â chynyddu maint y meysydd parcio presennol. Capasiti maes parcio = capasiti ymwelwyr. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn sicrhau nad yw CNC yn gweithredu fel sefydliad sy'n hybu twristiaeth, gan y byddai hyn yn mynd yn groes i'r egwyddor o warchod adnoddau naturiol gwerthfawr Niwbwrch. Nid oes angen mwy o dwristiaid ar Niwbwrch, mae'r safle eisoes yn llawn.

Nid wy'n deall pam mae rhai elfennau o CNC yn cefnogi'r prosiect Asgwrn Cefn Gwyrdd arfaethedig sydd am geisio denu 400,000 MWY O YMWELWYR i'r safle!! Byddai hyn yn drychinebus i fywyd gwyllt Niwbwrch, heb sôn am waethygu'r tagfeydd traffig a'r aflonyddwch i'r gymuned. Os gwelwch yn dda, CNC, gadewch y dwristiaeth i'r bwrdd croeso a chanolbwyntiwch ar warchod coedwig Niwbwrch a'r gwningar. Yn ystod gwyliau, penwythnosau ac oriau brig, mae pentref Niwbwrch yn dioddef tagfeydd o draffig ymwelwyr. Drwy wahanol grwpiau ffocws, mae'r gymuned dros y blynyddoedd wedi cydweithio â CNC i geisio rheoli'r broblem hon. Mae'r system bresennol a fabwysiadwyd i fynd i'r afael â'r broblem hon yn gweithio'n dda. Pan fydd maes parcio'r traeth yn llawn mae arwydd electronig ar gylchfan Niwbwrch yn arddangos y neges 'Maes parcio'r traeth yn llawn'. Gall traffig wedyn ddiflannu i ardal arall heb achosi tagfeydd yng nghanol y pentref. Daliwch ati gyda'r gwaith da hwn CNC, mae trigolion Niwbwrch yn ei werthfawrogi.

**Awgrymiadau i gael gwared ar ragor o goed a chreu cynefin mwy agored**

Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r cynllun yn cynnig ehangu cynefinoedd agored ar hyd y draethlin ac o fewn y goedwig gan oddeutu 40 hectar dros y 30 mlynedd nesaf, a chynefinoedd lled agored gan 20 hectar a thrwy hynny leihau gorchudd cyffredinol canopi caeedig y goedwig o 670 i 610 hectar. Bydd rhai o'r mannau agored newydd hefyd yn cyfrannu at welliannau yng nghyflwr cynefin tafolen y traeth a'r llystyfiant yn llaciau'r twyni. Y newid mawr arall i'r goedwig yw'r lleihad mawr yn nifer y coed conwydd a'r cynnydd yng nghoetir twyni brodorol dros y 30 mlynedd nesaf. Bydd gostyngiad o tua 170 hectar yn arwynebedd yr ardaloedd y mae coed conwydd yn tyfu ynddynt, sef o 550 hectar (82% o arwynebedd y goedwig) i oddeutu 380 hectar (62% o arwynebedd y goedwig). Bydd arwynebedd ardaloedd y coetir twyni brodorol yn cynyddu gan oddeutu 105 hectar, o 125 hectar i 230 hectar (38% o arwynebedd y goedwig). Bydd y newidiadau i'r coetir twyni yn helpu i glustogi nodweddion o ddiddordeb a gwella'r hydroleg gerllaw'r gwningar.

Yn sicr mae angen torri'r holl gied ar ac o gwmpas Creigiau Mawr, Cerrig Duon a hefyd Cerrig Gwladys yn hollol glir i bawn gael gweld a gwerthfawrogi'r Daeareg.

Mae ardal eang o goed marwaidd ar hyd blaen y goedlan sydd yn fler a mae hwn iw adael am gyfnod hir o dan y cynllun. Mae hyn yn groes i amcanion yr AHNE o ran y tirlun.

Mwy o ardaloedd agored o fewn ac ar ymylon y goedwig.

Llai o goedlannau, yn enwedig coedlannau estron.

Nid yw'r coetitroedd yn nodwedd yr ardal gadwraeth, nid yw Rumex rupestris yn dafolen sy'n hoff o gonwydd yn ei mygu. nNid yw'r gelod ychwaith yn rhai gor-hoff o gysgodion. Hyd y gwn dim ond mewn un pwll y maent. Unwaith eto – dylid dileu'r conwydd.

Yn achos unigryw Niwbwrch, penodwch reolwyr safle sydd ac arbenigedd a dealltwriaeth ddwfn am rheoli cynefinoedd bregus fel hyn. Dyma gyfle i CNC adfer y difrod erchull a grewyd pan blannwyd y coedlannau marwol yma yn y lle cyntaf.

Fel mater o frys, rhowch gynlluniau a chynlluniau gwaith mewn lle i dynnu coed i ffwrdd ar draws ymylon / ffin y coedlan cyfredol ar gyfer diogelu ac adfer cynefinoedd gwerthfawr a phrin. Torri a chlirio digon fel mae'r arbennigwyr yn ei awgrymu sydd o fudd i gynnal bywyd gwyllt prin a nodweddiadol. Mae angen i'r twynni gael y rhyddid i ymledu yn naturiol unwaith eto.

Edrych i'r opsiynnau sydd ar gael trwy mon (corridorau gwyrdd) i greu cyfres o goedlannau ar dir amaeth. Mae modd creu coedlannau unrhyw le ond fedrwch ddim creu twyni tywod. Mae bywyd gwyllt twyni yn arbenigol iawn a'r gallu ganddynt i ymledu yn amhosib petaech yn gweithredu darpar gynllun o'i fath.

**Awgrymiadau cyffredinol eraill**

Mae'r rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn gyffredinol eu natur ac yn ymwneud â bioamrywiaeth neu arferion rheoli cyffredinol nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys mewn cynllun adnoddau coedwig. Mae eraill yn ymwneud â phrosesau ac wedi'u nodi ar gyfer gwneud gwelliannau yn y dyfodol.

Creu gardd goed.

Peidio ag obsesio am rywogaethau "brodorol".

Mae gwiwerod wrth eu boddau â chonau sbriws hefyd (dydw i ddim yn credu eu bod nhw wedi cael eu crybwyll – ond lle bynnag y mae coed sbriws yn tyfu yn y goedwig, mae yno wiwerod bob amser).

Rhoi'r gorau i gwympo coed ar y geo-lwybr.

Cael y data hydrolegol yr addawyd i ni y byddai ar gael flynyddoedd yn ôl. Wedi'i rheoli o safle gwybodus.

Bod yn fwy penodol ynghylch y cynlluniau tymor byrrach i ganolig – beth sy'n digwydd dros y pum mlynedd nesaf.

Rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw arolygon a gynhelir gan arbenigwyr fflora a ffawna. Byddwn yn gobeithio bod yr effaith ar yr holl fywyd gwyllt (nid dim ond y mamaliaid mwy a'r infertebratau) wedi'i ystyried.

Dylai'r cynlluniau fod yn benodol ac nid yn amwys.

Mae angen cadw COFNODION o niferoedd gwiwerod, a dylid darparu dosbarthiad poblogaeth a phatrymau helaethrwydd diffiniedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau a ragwelir mewn cynefinoedd.

Bod yn hollol glir beth yw amcanion CNC ar gyfer Niwbwrch ac ddim cam arwain gyda'ch amcanion a blaenoriaethau

Rhoi fwy o ystyrriaeth o sut oedd yr ardal cyn i'r blanhigfa ymddangos. Addysgu am y Iaith, treftadaeth, arferion rheoli tir a'n cymunedau clos

Rhoi fwy o sylw a blaenoriath i ddehongli'r daeareg anhygoel chanfyddir yma.

Ildio gyda'ch polisi parhaus o anwybyddu anghenion natur y safle unigryw yma a difrodi y tywyn a'i oll rywogaethau prin amrhisiadwy.

Bydd angen i'r cynllun fanteisio ar gyfleoedd i wireddu gwelliannau a manteision amgylcheddol, yn ogystal â gwelliannau a buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Awgrymir i alinio'r cynllun yn well gyda nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Cymru] 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad.

*'Rheoli ardaloedd o amgylch geo-barc cefnen graig cyn-Gambriaidd UNESCO, sy'n nodwedd SoDdGA ac yn safle daearegol o bwys rhanbarthol. Datguddio a gwneud nodweddion daearegol allweddol yn hygyrch ar gyfer astudiaeth ymchwil a defnydd addysgol ar hyd llwybr daearegol newydd.'* – Amcan da ond mae'n anodd barnu o'r mapiau faint o'r gefnen fydd yn cael ei gwneud yn hygyrch. Wrth greu unrhyw lwybr newydd rhaid cymryd gofal i beidio â difrodi nac aflonyddu ar rywogaethau prin, dynodedig neu beidio.

'*Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol fel Cotoneaster, crib-y-ceiliog a'r geiriosen ddu.*' – Mae'r amcan hwn wedi'i eirio'n wael, oherwydd y gall rheoli olygu gwella neu ddileu. Hyderaf mai'r bwriad fyddai cael gwared ar y rhywogaethau estron goresgynnol hyn, yn ddelfrydol cyn iddynt gyrraedd maint hadu. Dylid hefyd reoli unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n hadu o'r goedwig i'r twyni tywod agored.

‘*Parhau i ddarparu mynediad i leoliad digwyddiad chwaraeon a lleoliad ffilm unigryw*’ – Byddai’n ddoeth ychwanegu amod at hyn, sef “cyn belled ag y bo’n gydnaws ag amcanion cadwraeth, hamdden ac amcanion eraill.”

‘*Gwella gwerth cynefin gweledol a synhwyraidd a thirwedd y goedwig drwy gynyddu’r rhywogaethau brodorol ac amrywio’r coetir.*’ – Rhaid bod yn ofalus wrth gyflwyno rhywogaethau newydd i beidio â chyflwyno unrhyw rywogaethau goresgynnol ychwanegol a allai arwain at broblemau rheolaeth yn y dyfodol.

## Sylwadau cyffredinol eraill

Mae'r rhain yn sylwadau cyffredinol a nodwyd ar gyfer gwneud gwelliannau yn y dyfodol at ddibenion ymgysylltu ac ymgynghori.

Credaf y dylem feddwl i'r dyfodol a datblygu'r ecosystem sydd gennym i ddarparu ar gyfer y gwningar a'r goedwig. Dylai hefyd ddarparu ar gyfer pobl ac anifeiliaid eraill gan ein bod ni i gyd yn rhan o'r amgylchedd.

Y gobaith yw, os bydd nifer fechan o leisiau uchel, blin yn erbyn y cynllun hwn, sydd yn syml eisiau i'r goedwig aros fel ag y mae, na fyddant yn cael eu caniatáu i gael pŵer anghymesur a'i atal. Mae'n ymddangos mai dyma sydd wedi digwydd i gynigion dros y blynyddoedd diwethaf.

Cofiwch gadw'r pentref yn rhan o'ch cynlluniau … mae pobl eisiau helpu. Rydyn ni'n caru'r lle hwn.

Yn ystod y gwaith cwympo coed diweddar, o ganlyniad i orddefnyddio peiriannau trwm fe ddinistriwyd rhai o'r traciau a ddefnyddir gan deuluoedd ar gyfer beicio a cherdded. Mae bellach yn anniogel mewn rhai ardaloedd i blant ifanc reidio beiciau. Roedd y difrod cyfochrog o gwympo'r coed yn ei gwneud hi i edrych fel pe bai bom wedi ffrwydro yn y goedwig.

Mae prif gynefin y gelod meddyginiaethol wedi'i ddinistrio bron yn gyfan gwbl. Tynnwyd y gorchudd cyrs o amgylch ymylon y pwll, gan amlygu'r gelod i ysglyfaethu ac effaith golau'r haul. O ganlyniad i dynnu'r uwchbridd mae'r ardal honno'n edrych fel anialwch. Mae'r pwll gelod bellach bron yn wag; mae eu cynefin wedi'i ddifrodi.

Rwy'n meddwl, gan fod y goedwig yn perthyn i Niwbwrch, y dylem elwa ar unrhyw bren sy'n cael ei dorri neu ei werthu, efallai ar ffurf tanwydd gaeaf i bobl yn y gymuned, neu fe ellir rhoi'r elw o werthu pren i'r gymuned leol gan ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau fel adnewyddu Sefydliad Pritchard Jones neu gyfrannu at brosiectau lleol eraill fel ailosod ceblau trydanol a thelathrebu fel eu bod o dan y ddaear.

Creu grwpiau lleol strategol a chreu llwyfan "cwynion" ar wahan.

Nid oedd pwrpas dod i'ch cyfarfodydd yn anffodus oherwydd mai mân gwynion a oedd yn cael eu lleisio- er ddigon teg bod pobol yn cael llwyfan i wneud hyn. Ond fe ddylid sefydlu grwp strategol sy'n cynnwys llais Cymry Cymraeg Mon a phobol gynhenid lleol sy wedi byw yn ur ardal ers canrifoedd. Mae gormod o "wrando" a phlygu i bobol ddwad. Yn hytrach yn gwrando ar lais rhai sydd a wir ddiddordeb yn strategol hirdymor yn y safle.

Hynod falch fod ymgynghoriad gyda'r gymuned cynhenid yn cymryd lle a fod cyfle o'r diwedd i fynegi barn.

Mae gwaith da wedi'i gyflawni yn Niwbwrch dros y blynyddoedd diwethaf sydd o fudd i fywyd gwyllt. Carwn estyn gair o ganmoliaeth i chwi am y gwaith yma!

Mae'n ymddangos bod Map 1 a Map 3 yn dangos mwy neu lai'r un wybodaeth, gydag allweddi sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd. Byddai wedi bod yn fwy defnyddiol cael gwybodaeth ychwanegol megis lleoliad cyfleusterau hamdden a gwaith cadwraeth.

Byddai'r esboniad o allweddi'r map wedi bod yn fwy defnyddiol pe bai'r croeslinellau ar y ddwy ddogfen wedi cyfateb i'w gilydd. Mae'r allwedd ar gyfer Map 1 yn cyfeirio at bathewod, ystlumod, morgrug y coed, titw'r gors / titw'r helyg a thelor y coed – nad oes yr un ohonynt yn rhywogaethau

dynodedig ar y safle hwn – yn ogystal â choetir twyni arfordirol gwlyb a sych. Rwy'n cymryd bod yr allweddi ar gyfer pob cynllun coedwig yr un fath; byddai'n llawer mwy defnyddiol pe baent yn benodol i safle.

Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr – Dros y saith mlynedd diwethaf rwyf wedi mwynhau bod yn rhan o'r grŵp, gweithio ar y cyd â CNC a chyflawni nifer o brosiectau llwyddiannus gyda chymorth arian y Loteri Genedlaethol ac ati … Mae gennym bellach:

- Ystafell ddosbarth awyr agored – wedi'i hadeiladu o bren lleol (yr oedd peth ohono'n tyfu o fewn 20 metr i'r adeilad).
- Cuddfan ar lan y llyn â tho bywlys.
- Llwybr cylchol o amgylch y llyn – wedi'i adeiladu drwy gydweithio â CNC.
- Gwelliannau i'r draeniau i'r safle.

Rydym yn cael cyfarfodydd chwarterol gwerthfawr gyda CNC i gyfathrebu ynghylch prosiectau a chynnydd, er bod y rhain wedi lleihau ychydig yn ystod Covid. Mae ein hethos yng Ngrŵp Coed Cymunedol Llyn Parc Mawr yn cynnwys hyrwyddo bioamrywiaeth, cadwraeth, addysg, ymgysylltu â'r gymuned, gwirfoddoli, chwilota ffwng ac ati.

Roedd yn galonogol iawn gweld manylion y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a bostwyd yn ddiweddar. Yn ystod y sesiynau ymgysylltu ar-lein, trafodwyd y math hwn o ymgynghori yn helaeth ac mae'n gam i'w groesawu o ran sicrhau dealltwriaeth glir a chysylltiadau da.

Ydy hyn yn haeddu bod yn bwynt bwled ? *Mewn perthynas a - Parhau i ddarparu mynediad i ddigwyddiadau chwaraeon unigryw a ffilmio.*